



PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Ymchwilio i safbwyntiau darparwyr addysg a
gwasanaethau cymorth addysgol ar eu gallu i
ddiwallu anghenion plant ysgolion cynradd sy'n
geiswyr noddfa yn Ne Cymru**



Jessica Leung, Gill Richardson, Emily Fisher, Kate Brennan, Sara Wood

Ymchwilio i safbwyntiau darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth addysgol ar eu gallu i ddiwallu anghenion plant ysgolion cynradd sy'n geiswyr noddfa yn Ne Cymru

Awduron

Jessica Leungⁱ, Gill Richardsonⁱⁱ, Emily Fisherⁱⁱⁱ, Kate Brennan^{iv}, Sara Woodⁱⁱ

i. Prifysgol Yale

ii. Canolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

iii. Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Abertawe

iv. Ysgol Feddyaeth Prifysgol Caerdydd

Diolchiadau

Ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth llawer o unigolion a sefydliadau. Rydym yn cydnabod Is-adran Meddygaeth y Boblogaeth, Prifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ysgol Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol Yale, am y nawdd a'r gefnogaeth oedd eu hangen i gynnal y prosiect hwn. Bu'r Athro Shantini Paranjothy a Dr Lenira Semedo, Prifysgol Caerdydd, yn cynghori ar ddulliau ansoddol. Hwyluswyd y gwaith gan yr athrawes Sian Griffiths a'r Cyfarwyddwr Jo Hopkins, Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Darparwyd cyngor arbenigol gan Laura Evans a Dr Mark Griffiths o'r tîm Llywodraethu Ymchwil a Gwerthuso, a Rebecca Fogarty, Uwch Reolwr Prosiect, Cydraddoldeb Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Darparwyd cymorth ariannol i gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn gan y Ganolfan ACEs, ynghyd â Joint Action Health Equity Europe, lle mae Dr Gill Richardson, a oruchwyliodd y prosiect, yn arweinydd llif gwaith Iechyd Mewnfudwyr y DU.

Dyfyniad awgrymedig

Leung J, Richardson G, Fisher E, Brennan K a Wood S. (2020). Ymchwilio i safbwyntiau darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth addysgol ar eu gallu i ddiwallu anghenion plant ysgolion cynradd sy'n geiswyr noddfa yn Ne Cymru. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-78986-154-128

© 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Llawr 5, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

Gellir atgynhyrchu'r deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, dyluniad a'r gosodid yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyflwyniad

Mae ysgolion yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hybu cynhwysiant a llesiant cyffredinol myfyrwyr sy'n ceisio noddfa (myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid) yn eu cymunedau newydd (1). Mae gan bob plentyn sy'n ceisio noddfa hawl i le am ddim mewn ysgol ar ôl cael eu gwasgaru/adsefydlu yn eu hawdurdod lleol. Ac eithrio cynlluniau adsefydlu'r llywodraeth ar gyfer poblogaethau penodol, er enghraifft cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid o Syria, cynigir y lleoedd hyn heb fawr o adnoddau ychwanegol i'r ysgol, a hyn yn oed yn y lleoedd lle mae cynlluniau adsefydlu ar gael nid yw'r adnoddau ychwanegol yn aml yn cyflawni'r anghenion ychwanegol. Mae yna rai camau y gall ysgol eu cymryd i gyflawni anghenion y boblogaeth hon o fyfyrwyr y dangoswyd eu bod yn effeithiol, sef: defnyddio strategaethau addysgu addas, meithrin cymhwysedd trawsddiwylliannol, dysgu am gefndiroedd y myfyrwyr a darparu cyfieithwyr (2,3). Hefyd, mae athrawon yn hwyluswyr hollbwysig integreiddio, twf a llesiant cyffredinol myfyrwyr (4,5).

Gellir ystyried bod rôl safleoedd addysgol yn arbennig o bwysig o ystyried y canlyniadau niweidiol a allai ddigwydd os nad yw ysgolion wedi paratoi i groesawu amlddiwylliannaeth (6). Gall tueddiadau o ran polareiddio a stereoteipio godi mewn ysgol, a gallai myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid wynebu heriau ychwanegol o ran eu dysgu, a allai arwain at anghydraddoldebau parhaol (6).

Er hynny, mae'r ymchwil sy'n berthnasol i bolisiau ar blant sy'n ceisio noddfa mewn lleoliad addysgol yn parhau i fod yn gyfyngedig, yn ddarniog ac yn ymwneud ag achosion penodol (1). Yn ogystal, mae astudiaethau diweddar wedi awgrymu nad yw athrawon a gweithwyr cymorth yn yr ystafell ddosbarth – sy'n gweithredu fel y prif gyfrwng ar gyfer meithrin diwylliant o gynhwysiant gweithredol neu beidio – wedi cael hyfforddiant digonol nac yn meddu ar y sgiliau neu'r wybodaeth ddigonol i weithio gyda myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid, a bod angen dybryd am addysg neu weithgareddau datblygu proffesiynol i ddatblygu ymwybyddiaeth a sgiliau darparwyr addysg (7).

O ystyried pwysigrwydd safleoedd addysgol i lesiant myfyrwyr sy'n ceisio noddfa, yn ogystal â'r posibilrwydd o ddiffyg adnoddau neu gyfeiriad ar lefel polisi ar gyfer ysgolion, mae'n hollbwysig canfod y bylchau a allai fodoli yn y cymorth sydd ar gael i'r sefydliadau hyn wrth iddynt geisio diwallu anghenion y boblogaeth hon.

Felly, mae'r papur hwn yn ceisio cynyddu ein dealltwriaeth o'r pwnc hwn yng nghyd-destun myfyrwyr oedran ysgol gynradd sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, gyda'r nod yn y pen draw o greu amgylchedd sy'n cael effaith barhaol ar lesiant y myfyrwyr hyn.



Cefndir

Mae plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn grŵp poblogaeth amrywiol, sy'n cyrraedd y gwledydd sy'n eu lletya gyda phrofiadau, diwylliannau, lefelau addysg a galluoedd ieithyddol unigryw. Er y gallai eu hanghenion a'u profiadau amrywio'n fawr, maent yn aml yn rhannu dyhead gwirioneddol i ddysgu a chyflawni (7), ac maent yn ystyried addysg fel ffordd o gael bywyd gwell (8). Yr hawsaf ydyw i blant ymgysylltu â systemau addysg a gwneud cynnydd drwyddynt, y mwyaf o gyfleoedd y bydd ganddynt i sefydlu gwreiddiau, gwneud cysylltiadau a dilyn llwybrau gyrfa er mwyn datblygu dyfodol mwy diogel.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan blant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches anghenion cymhleth ac amrywiol. Mae angen asesu'r rhain a'u cefnogi ar sail unigol (9), er mwyn sicrhau y gallant ffynnu yn y system addysg. Mae'r anghenion hyn yn cynnwys:

- **Materion iechyd corfforol a meddyliol**, er enghraifft diffyg maeth, pydredd dannedd, problemau gyda'u golwg a'u clyw, problemau cysgu, anhwylder straen ôl-drawmatig a materion iechyd meddwl eraill sy'n deillio o gael eu gwahanu, colli anwyliaid neu fathau eraill o drawma (1,10,11). Gallai'r problemau hyn effeithio ar ddysgu a chyflawniad academiaidd plentyn (6).
- **Anawsterau gyda hunaniaeth**, ac angen i ganfod cydbwysedd rhwng diwylliannau ac ieithoedd hen a newydd (1).
- **Anghenion addysgol**, oherwydd amharu ar eu haddysg neu addysg gyfyngedig yn eu gwledydd brodorol (12). Er mwyn gallu gwneud cynnydd academiaidd, bydd angen i'r plant ddysgu iaith y wlad letyol, dal i fyny ar bynciau eraill yn y cwricwlwm ac addasu i ddiwylliant addysgol newydd a chyfres newydd o ddisgwyliadau o ran ymddygiad (1,13).
- **Ynysu cymdeithasol**, oherwydd rhwystrau ieithyddol neu statws ffoadur (8), sy'n gallu ei gwneud yn anodd iddynt wneud ffrindiau a gall arwain at fwlio (8). Mae meithrin cyfeillgarwch yn bwysig er mwyn lleihau ynysu cymdeithasol (1), hwyluso adsefydlu (14), caffael iaith newydd (8) a datblygu ymdeimlad o berthyn a chysylltiad gyda'r ysgol, sydd wedi'u cysylltu â lefelau is o iselder a hunan-effeithiolrwydd uwch (15).
- **Ffactorau ehangach sy'n achosi straen i'r teulu**, er enghraifft ansicrwydd ynglŷn â'r broses ceisio lloches, tlodi a llety ansefydlog (12,15,16). Gall y ffactorau hyn dynnu sylw myfyrwyr oddi wrth y dysgu (14).

Drwy fynd i'r afael â'u hanghenion, gall ysgolion gefnogi plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches i ymgysylltu â bywyd yr ysgol a gwneud cynnydd yn academiaidd, a gallent annog iechyd a llesiant. Mae ysgolion sy'n darparu'r gefnogaeth orau i blant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches pan fyddant yn mabwysiadu **agwedd gynhwysol**, ac yn dathlu amrywiaeth, yn addasu'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr ac yn darparu ymdeimlad o groeso a pherthyn i blant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches (1,13,17). Mae mabwysiadu **agwedd holistaidd** hefyd yn bwysig; un sy'n adnabod anghenion amrywiol plant unigol ac sy'n darparu cymorth cynhwysfawr er mwyn mynd i'r afael â hwy (1,13). Ymhlith yr arferion eraill i gefnogi plant i ymgysylltu a ffynnu yn yr ysgol mae:

Drwy fynd i'r afael â'u hanghenion, gall ysgolion gefnogi plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches i ymgysylltu â bywyd yr ysgol a gwneud cynnydd yn academiaidd, a gallent annog iechyd a llesiant.

- **Cefnogi a hyfforddi athrawon.** Mae darparu hyfforddiant parhaus i athrawon yn bwysig. Mae hyn yn cynnwys: y ffyrdd gorau o gefnogi plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches; sut i greu amgylcheddau diogel, anogol a chynhwysol yn yr ystafell ddosbarth; sut i reoli ystafelloedd dosbarth sydd ag ystod o sgiliau Saesneg; datblygu dealltwriaeth o'r cysylltiadau

rhwng profiadau niweidiol, ymddygiad a dysgu; a sut i helpu plant i wella'n seicolegol o drawma (4,9,13,16). Mae annog athrawon i fyfrio ar eu credoau a'u rhagfarnau eu hunain am blant sy'n ffoaduriaid hefyd yn ddefnyddiol (1,8) er mwyn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu.

- **Darparu gofal iechyd corfforol a meddyliol.** Gall cefnogi plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches gyda'u hanghenion gofal corfforol a meddyliol helpu'r plant i ymgynffwrdd ag ysgolion a chymdeithas yn gyffredinol (18). Gall hyn gynnwys help gan wasanaethau iechyd neu gwnsela ar y safle (10,18) yn ogystal â chysylltiadau i wasanaethau cymunedol oddi ar y safle.
- **Creu partneriaethau gydag asiantaethau eraill.** Gellir mynd i'r afael ag anghenion plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches drwy bartneriaethau gyda sefydliadau a gwasanaethau cymunedol (16,17). Gall y rhain helpu myfyrwyr i gysylltu â gwasanaethau cymunedol a'u defnyddio, yn ogystal â chynyddu dealltwriaeth y staff yn y gymuned (19). Gall darparwyr ddarparu cyngor ac arweiniad, neu helpu i addysgu rhai themâu (19).
- **Cefnogi anghenion addysgol myfyrwyr.** Mae hyn yn cynnwys helpu plant i ddysgu iaith y wlad letyol, drwy, er enghraifft, wersi iaith ychwanegol a chlybiau gwaith cartref (12,13,17,20), a helpu plant i gynnal a datblygu eu mamiaith (12,13). Mae agwedd ysgol gyfan at ddysgu yn ddefnyddiol, pan fydd athrawon iaith wedi'u hintegreiddio i wersi pynciau eraill ac yn cyfrannu atynt (17). Hefyd, mae cael athrawon neu gynorthwyr sy'n siarad mamiaith y plant ac sy'n deall eu diwylliant yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu ac ymgartrefu (8,9,20).
- **Darparu cyfleoedd i wneud cysylltiadau cymdeithasol.** Mae cymorth cymdeithasol gan athrawon yn gallu hyrwyddo ymdeimlad o berthyn yng nghymuned yr ysgol (8) ac mae cael oedolyn ymrwymedig a gofalgwr sy'n gallu cefnogi'r plentyn yn y tymor hwy yn ddefnyddiol, yn arbennig ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (16). Mae cyfleoedd i wneud cysylltiadau gyda chyfoedion – drwy gynlluniau cyfeillio er enghraifft (9,13) neu gyfleoedd ar gyfer hamdden (19) – hefyd yn hanfodol i helpu i ddatblygu cyfeillgarwch, lleihau ynysu cymdeithasol a dysgu iaith y wlad letyol (9,13). Gall gweithgareddau allgyrsiol ddatblygu sgiliau ac agweddau arweinyddiaeth eraill, nad ydynt yn rhai academiaidd (1).
- **Ymgysylltu â rhieni a theuluoedd.** Mae annog rhieni i gymryd rhan yn addysg eu plant a chynyddu'r broses gyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd yn bwysig (9,12,21) a gall helpu'r plant i deimlo'n rhan o'r ysgol (1,13). Gallai hyn gynnwys gweithdai rhieni, llysgenhadon rhieni, digwyddiadau cymdeithasol, cyfranogiad rhieni yng nghymuned yr ysgol, neu ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi (9,13), drwy ddefnyddio cyfryngwyr neu gyfieithwyr i helpu i gynorthwyo dealltwriaeth (13). Mae mynd i'r afael ag anghenion ehangach teuluoedd drwy eu helpu i gael mynediad at wasanaethau iechyd a lles, er enghraifft, hefyd yn bwysig (9).

Er bod ein gwybodaeth am sut i ymgysylltu ac integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches ym myd addysg yn cynyddu, mae ysgolion ac athrawon yn aml yn canfod bod rhwystrau i gyflawni'r rhain yn ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys: diffyg cyllid ac adnoddau (9,12,13); diffyg amser staff i ddarparu'r gofal bugeiliol angenrheidiol ac agwedd gynhwysol (13,19); ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches a'u teuluoedd (13); diffyg hyfforddiant a chymorth i gyflawni anghenion plant (4); a'r heriau o gael mynediad at anghenion addysgol y plentyn, yn arbennig pan fydd materion iechyd meddwl yn effeithio o bosibl ar iaith neu ddysgu (9).



Dulliau

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru – mewn cydweithrediad â myfyrwyr meddygol ac ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Yale – wedi arwain cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig i gael syniad o farn darparwyr ynghylch y cymorth sydd ar gael ganddynt a bylchau posibl yn yr adnoddau wrth iddynt geisio cyflawni anghenion plant sy'n ceisio noddfa. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar ranbarth de Cymru, sy'n cwmpasu tair o blith pedair ardal wasgaru'r Swyddfa Gartref yng Nghymru (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe).

Y cwestiynau ymchwil a fu'n sail i'r prosiect hwn oedd: A yw darparwyr addysg ysgolion cynradd a'u gwasanaethau cymorth yn credu bod ganddynt yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen i ddiwallu anghenion plant sy'n ceisio noddfa?

Prif amcan y prosiect hwn oedd sicrhau gwell dealltwriaeth o'r elfennau canlynol yng nghyd-destun cyflawni anghenion myfyrwyr sy'n ceisio noddfa:

- Yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i ysgolion yn awr
- Yr adnoddau a'r cymorth sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion yn awr
- Yr adnoddau a'r cymorth a ddymunir ac sy'n brin mewn ysgolion

Roedd amcanion eilaidd y prosiect hwn yn cynnwys:

- Ychwanegu at y wybodaeth gyfredol ynglŷn ag anghenion plant ysgolion cynradd sy'n ceisio noddfa sydd wedi'u dehongli drwy lens eu hathrawon a staff cymorth
- Cael dealltwriaeth o brofiadau plentyndod holistaidd ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ne Cymru
- Cynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r pwnc hwn yn y sectorau addysg ac iechyd y cyhoedd
- Datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau rhwng y sectorau iechyd y cyhoedd ac addysg

Casglu data

Aed i'r afael â'r cwestiwn ymchwil drwy'r dull casglu data unigol o gyfweiliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd naill ai yn bersonol neu dros y ffôn pan nad oedd cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ymarferol. Crëwyd y canllawiau cyfweiliadau lled-strwythuredig (sydd yn Atodiad yr adroddiad hwn) yn bennaf gyda gwybodaeth o adroddiad HEAR (*Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru*) a gynhyrchwyd ar y cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe yn 2018 (22).

Cafodd y cyfweleion eu recriwtio i ddechrau drwy broses samplu pelen eira (samplo cyfeirio cadwyn) a chais drwy e-bost. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu'r nifer a oedd yn cael eu recriwtio, penderfynwyd bedair wythnos ar ôl dechrau'r prosiect wyth wythnos i geisio recriwtio drwy ymweliadau personol ag ysgolion a oedd yn derbyn plant a oedd yn ceisio noddfa a thrwy chwiliadau ar-lein am gysylltiadau perthnasol. Yna anfonwyd e-bost at bob darpar gyfranogwr, yn gofyn iddynt yn swyddogol am gyfweiliad, ochr yn ochr â chyflwyniad byr i dîm y prosiect a dalen wybodaeth atodedig.

Cynhaliwyd saith cyfweiliad gyda deg cyfweilai. Roedd y cyfweleion yn cynnwys penaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, athrawon dosbarth, cydlynwyr ceiswyr lloches, arweinwyr gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol a swyddogion gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol. Cynhaliwyd tri chyfweiliad mewn deuoedd, gyda'r posibilrwydd o sgwrs gyfoethocach ac er cyfleustra, a chynhaliwyd y pedwar



cyfweliad arall yn unigol. Cynhaliwyd tri chyfweliad gyda dau aelod o dîm y prosiect; yn yr achosion hyn, byddai un aelod yn cymryd nodiadau manwl a byddai'r llall yn arwain y cyfweliad. Ar gyfer y pedwar cyfweliad arall, dim ond un aelod o dîm y prosiect allai eu mynychu.

Dechreuodd pob cyfweliad gyda chyflwyniad i dîm y prosiect, disgrifiad byr o'r prosiect ac adolygiad o'r ffurflen ganiatâd. Gyda chydsyniad y cyfweleion, cafodd y cyfweliadau eu recordio ar ddyfais ddiogel a chawsant eu gwneud yn anhysbys ar unwaith gan ddefnyddio cod rhif ar hap. Cafodd pump o'r saith cyfweliad eu recordio. Ni chafodd dau gyfweliad eu recordio oherwydd ymarferoldeb a dewis y cyfwelai. Cymerwyd nodiadau manwl ar gyfer y ddau gyfweliad na chawsant eu recordio.

Ar gyfer pump o'r cyfweliadau a recordiwyd, cafodd rhannau penodol o'r cyfweliad a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn ymchwil, a oedd tua 30 munud i gyd, eu trawsgrifio. Cawsant eu trawsgrifio air am air ac, ac er mwyn eu gwneud yn anhysbys, cafodd unrhyw enwau sefydliadau'r trydydd sector, gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol, unigolion neu leoedd eu hamnewid am "(Sefydliad y trydydd sector)", "(Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)", "(Enw)", neu "(Lle)", yn y drefn honno.

Dadansoddi data

Ar gyfer y prosiect hwn, defnyddiwyd y dull fframwaith ar gyfer dadansoddiad ansoddol. Bu i ddau aelod o dîm y prosiect godio'r ddau drawsgrifiad yn annibynnol i ddechrau. Amlygwyd rhannau ystyrion o'r testun (gydag "ystyrlon" yn dangos eu bod yn darparu gwybodaeth am gwestiwn y gwaith ymchwil, neu eu bod yn dangos safbwynt effeithiol neu arloesol y cyfwelai), a defnyddiwyd yr ymyl chwith i wneud nodyn o thema a phwnc cyffredinol y testun a amlygwyd. Yn dilyn hyn, bu i'r ddau ymchwilydd gymharu'r themâu cyffredinol a thrafod pam eu bod yn credu bod y testun yr oeddent wedi'i amlygu yn werthfawr ac yn cyfrannu at y cwestiwn ymchwil. Cytunwyd ar y themâu hyn a rhoddwyd diffiniad byr, a oedd yn creu'r fframwaith dadansoddol cychwynnol.

Yn dilyn hyn, defnyddiwyd y themâu o'r fframwaith cychwynnol i arwain y broses o godio'r ddau drawsgrifiad ychwanegol; yna defnyddiwyd unrhyw godau, patrymau neu bynciau newydd a oedd yn codi i ddiwygio'r fframwaith cychwynnol. Trafodwyd y fframwaith diwygiedig hwn gydag aelodau o dîm y prosiect a goruchwyliwr y tîm nes y cafwyd consensws a chwblhawyd y fframwaith. Yn olaf, darllenwyd drwy'r holl drawsgrifiadau a'r nodiadau o'r cyfweliadau ac amlygwyd unrhyw destun ystyrion. Yna neilltuwyd cod ar gyfer pob eitem o destun ystyrion o'r fframwaith terfynol.

Rhoddwyd pob eitem o destun a amlygwyd mewn matrices gan ddefnyddio dyfyniadau uniongyrchol, wedi'u trefnu yn ôl cod a chyfwelai. Yna rhoddwyd y matrices hwn i oruchwyliwr tîm y prosiect i gael consensws ar y dyfyniadau a oedd fwyaf addas a pherthnasol i gael eu cynnwys yn yr adroddiad. Yna cafodd y dyfyniadau a gymeradwywyd eu hymgorffori yn adran "Canlyniadau" yr adroddiad, isod.

Anfonwyd yr adroddiad terfynol at bob un o'r cyfweleion yn ogystal ag unigolion eraill a oedd wedi mynegi diddordeb yng nghanfyddiadau'r prosiect. Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad data, dilëwyd holl ffeiliau sain y cyfweliadau, gohebiaeth e-bost gyda chyfweleion a gwybodaeth gyswllt cyfweleion.

Canlyniadau

Mae'r adran ganlynol wedi'i rhannu'n themâu craidd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfweiliadau. Yna mae nifer o themâu craidd wedi'u rhannu ymhellach yn is-themâu. Mae llenyddiaeth berthnasol wedi'i hymgorffori drwy'r adran gyfan, yn arbennig pan oedd themâu'n cysylltu â chanfyddiadau blaenorol o'r llenyddiaeth.



1) Cyllid a chynaliadwyedd

Roedd diffyg cyllid ar gyfer y grŵp penodol hwn yn broblem gyffredin i'r ysgolion a'u gwasanaethau cymorth; soniwyd hefyd am y pwysau cynyddol oedd ar ysgolion oherwydd toriadau i gyllidebau.

"Rwy'n credu mai'r unig beth y byddwn i'n ei ddweud oedd mai ein problem ni oedd cyllid. Cyllid... bu'n rhaid i ni frwydro'n galed i gael oedolyn i drefnu cymorth ar gyfer (dau fyfyrwr a oedd yn ceisio noddfa) oherwydd, yn amlwg, rwy'n awyddus iawn i wneud yn siŵr fy mod i'n rhoi chwarae teg i bawb yn fy nosbarth. Doeddwn i ddim eisiau gorfod dewis... alla'i ddim canolbwyntio ar ddau blentyn yn unig, mae angen i mi allu canolbwyntio ar bawb." (*Athro 1*)

"Yn sicr, mae mwy o bwysau ar (ein hysgol) o bob cwr. Ac, ym, mae toriadau wedi cael eu gwneud i gyfleusterau hefyd. Roedden ni'n arfer dibynnu'n eithaf trwm ar gwmni o'r enw (Sefydliad y trydydd sector) ac roedd gan (Sefydliad y trydydd sector) (wasanaeth) a oedd yn helpu ceiswyr lloches yn benodol ... roedd (y gwasanaeth) yn creu cysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol, a oedd yn wych oherwydd dydyn ni ddim yn cael cyfle i fynd i'w cartrefi. Ac yn eithaf aml, dydy'r llety maen nhw'n ei gael ddim yn briodol. Ac maen nhw'n dweud wrthym bod y llety ddim yn briodol ... Ond roedd (Sefydliad y trydydd sector) yn gwneud y cysylltiad hwnnw ac roedd yn mynd i'r cartrefi i weld y teuluoedd a gweld yr amgylchiadau roedden nhw'n byw ynddyn nhw. Ac roedden nhw'n dod i'r ysgol hefyd ac yn gweithio gyda'r disgyblion, ac roedd elfen o gwnsela yn rhan o hynny. A do, bu'n gymorth mawr i lawer o'n teuluoedd. A chafodd y cyllid ar gyfer hynny ei dynnu'n ôl yn llwyr, Felly dydy'r opsiwn hwnnw ddim ar gael i ni bellach... Roeddem yn gweithio gryn dipyn gyda nhw. Roedd hynny'n siom fawr i ni." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

"Y peth arall yw bod toriadau'n cael eu gwneud i'n gwasanaeth (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol). Mae'r cyllid yn cael ei dorri ac felly rydyn ni'n derbyn llai o gymorth gan wasanaeth (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol). Rydym yn gwybod nad eu bai nhw yw hyn. Maen nhw'n gorfod lledaenu eu gwasanaethau ar hyd a lled (ein dinas). ... Felly mae hynny wedi cael effaith fawr iawn ar faint o gymorth y gallwn ni ei roi." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Byddai'r trafodaethau â'r cyfweleion ynglŷn â'r pwysau ar gyllid yn aml yn arwain at sgysiau ar y rheidrwydd i reoli adnoddau yn gynaliadwy a phwysigrwydd gallu addasu yn wyneb adnoddau prin.

"Wel, rwy'n credu bod [cyllid] yn [broblem] os ydych chi bob amser yn gweithio mewn un ffordd. Mae'n rhaid i ni addasu... Felly rydyn ni'n ceisio cael hyfforddiant. Yn ceisio sicrhau addysgu ar ffurf partneriaeth. Yn ceisio sicrhau gwahanol ffyrdd o gefnogi ysgolion ar wahân i gael (Cynorthwydd Addysgu Dwyieithog) yno bum diwrnod yr wythnos, am bum awr y dydd. Oherwydd nid yw hynny'n digwydd i'r graddau y byddai'r ysgol yn ei hoffi. Mae hynny'n amhosibl. Ac mae hynny'n wir ar draws y DU ... oherwydd mae adnoddau'n brin. Dydy'r baich gwaith ddim yn lleihau, ond mae'n rhaid i chi fod yn ddyfeisgar. Felly rwy'n credu ein bod ni'n dda iawn am geisio addasu." (*Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"O ran adnoddau rwy'n credu eu bod wedi rhoi'r gorau i geisio cael pethau'n ddwyieithog, oherwydd maen nhw wedi sylweddoli bod hynny ddim yn bosibl, wel, mae 'na fwy na 96 o ieithoedd yn (ein dinas), dyw hynny ddim yn ymarferol. Felly rwy'n credu bod angen rhywfaint o amser arnyn nhw i allu symleiddio beth sydd ganddyn nhw i iaith hawdd ei deall, yn Saesneg. Felly mae gennych chi lyfryn croesawu, rheolau'r ysgol, eich llythyrau, eich adnoddau ... Peidio eu cyfieithu, rwy'n credu bod y dyddiau hynny wedi dod i ben. Ond cael y wybodaeth weledol, eich dolenni yno." *(Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

2) Cyfyngiadau strwythurol

Tai dros dro ac ansawdd tai

Mae tai yn cael eu dyrannu i geiswyr lloches gan y Swyddfa Gartref ac mae'r llety cychwynnol yn llety dros dro fel arfer, yna ceir darpariaeth mewn "ardal wasgaru". Gall darparwyr llety'r Swyddfa Gartref newid lleoliadau hefyd. Ar ôl derbyn statws ffoadur, mae ceiswyr noddfa'n cael eu symud ymlaen i'w llety parhaol, a allai fod mewn ardal newydd. Mae'r angen i addasu i fywyd mewn nifer o ysgolion yn realiti i lawer o blant.

Yn benodol oherwydd yr elfennau strwythurol hyn a allai gyflwyno bygythiadau cynyddol i lesiant a diogelwch canfyddedig plentyn sy'n ceisio noddfa, bu'r cyfweleion yn trafod bod tai dros dro ac ansawdd y tai yn broblem a oedd yn wynebu myfyrwyr a theuluoedd sy'n ceisio noddfa.



Mae'r angen i addasu i fywyd mewn nifer o ysgolion yn realiti i lawer o blant.

"Oherwydd natur y tai, roedden nhw'n dueddol o fynd i ysgolion dros dro... ac mae hynny'n broblem ychwanegol iddyn nhw yn tydy? Ymgartrefu mewn un ysgol a gorfod symud i ysgol arall yn amlach na dysgwyr eraill. Mae hynny yn ei dro'n rhoi mwy o bwysau ar ysgolion... Mae myfyrwyr eraill yn symud o amgylch hefyd, ond gallai ddigwydd yn arbennig i geiswyr lloches." *(Aelod o staff 2 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

"Ac yn eithaf aml, dydy'r llety maen nhw'n ei gael ddim yn briodol. Ac maen nhw'n dweud wrthym bod y llety ddim yn briodol. Ond rydyn ni wedi canfod ei bod yn anodd gwneud unrhyw beth am hynny." *(Pennaeth cynorthwyol 1)*

Pennaeth cynorthwyol 1: "Y peth arall sy'n anodd i ni yw bod teuluoedd yn cael eu symud oddi wrthym ni. Felly byddan nhw'n cael eu cartrefu dros dro yn yr ardal hon, am gyfnod byr. Mae'r plant yn dod yma, maen nhw'n ymgartrefu, maen nhw'n amlwg yn nerfus iawn i ddechrau, dydyn nhw ddim yn siarad yr iaith. Maen nhw wedi cael y profiad o – pwy a wŷr beth maen nhw wedi'i brofi i gyrraedd yma. Maen nhw'n dod atom ni, maen nhw'n cael chwe mis, blwyddyn, dwy flynedd weithiau, ac yna maen nhw'n symud ymlaen. Ac yn aml iawn mae hynny'n peri llawer o ofid, mae'r teuluoedd yn eithaf gofidus, mae'r disgyblion yn ofidus. Oherwydd dydyn nhw ddim eisiau symud eto ... Rwy'n deall bod hynny'n rhywbeth allwn ni ddim gwneud dim yn ei gylch o bosibl oherwydd ar ôl iddyn nhw dderbyn eu hawl i aros maen nhw'n cael eu hailgartrefu yn rhywle. Ond dydy hynny ddim yn helpu iechyd meddwl y plentyn neu iechyd meddwl y teulu o gwbl ... Ac rydym yn gweithio mor galed i ddatblygu'r perthnasoedd hynny er mwyn i'r disgyblion hyn deimlo eu bod mewn lle diogel, ac maen nhw'n agor allan ychydig, byddan nhw'n dechrau chwarae gyda'r plant eraill, maen nhw'n gwneud ffrindiau ac yna, byddan nhw'n cael eu symud eto. Ac rydych yn meddwl, wel, maen nhw wedi gweithio mor galed, ac rydyn ni wedi gweithio mor galed i ddatblygu'r perthnasoedd hynny, ac maen nhw wedi mynd.

Cyfwelydd: "Gallan nhw gael eu symud i unrhyw le?"

Pennaeth cynorthwyol 1: "Unrhyw le. Felly mae rhai wedi ceisio, maen nhw wedi cael eu symud i rannau eraill o (ein dinas) ac maen nhw'n dal i geisio cyrraedd yma. Roedd gennym deulu o geiswyr lloches a oedd yn ceisio ymuno â ni tua dwy flynedd a hanner yn ôl, mae ganddyn nhw statws ffoaduriaid nawr, ond maen nhw wedi'u hailgartrefu gryn bellter i ffwrdd yn (ein dinas). Ac mae'r rhieni'n talu i'r plant ddod ar y bws bob dydd – er eu bod nhw ddim yn gallu fforddio hynny. Maen nhw'n dal tri bws er mwyn eu cadw nhw yma. Mae un bachgen yn anabl ac fe gymerodd lawer o amser (i setlo) – doedd e erioed wedi cael ei addysgu cyn hyn, erioed wedi bod yn y system addysg ... Ac roedd ei dad yn benderfynol eu bod yn mynd i ddal y tri bws bob dydd, er ei fod mewn cadair olwyn. Oherwydd ei fod eisiau iddo ddod yma a ddim eisiau tarfu arno... am eu bod wedi ymgartrefu, maen nhw wedi gwneud cysylltiadau â ni, meithrin perthnasoedd a ... wel, mae hynny mor anodd. Ac mae'n anodd gwybod sut fywyd sydd ganddyn nhw yn nhermau gorfod talu am hynny. Pan nad oes ganddyn nhw lawer o arian i wneud hynny."

... Ac roedd ei dad yn benderfynol eu bod yn mynd i ddal y tri bws bob dydd, er ei fod mewn cadair olwyn.

3) Pwysigrwydd dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac aildrawmateiddio posibl

Pwysigrwydd dulliau sydd sy'n seiliedig ar drawma

Mae presenoldeb dulliau sydd sy'n seiliedig ar drawma yn arbennig o bwysig; soniodd y cyfweleion am y posibilrwydd o ail-drawmateiddio a chysylltiad ag ymwybyddiaeth o ACEs (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) yng nghyd-destun anghenion emosiynol.

"Ond rydyn ni'n teimlo mai'r cynorthwywyr addysgu dwyieithog yw'r rhan (fwyaf gwerthfawr) o (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) ... Oherwydd nhw yw'r rhai sydd â'r – os ydych chi'n blentyn sy'n ffoadur ac yn geisiwr lloches heb iaith ac yn cael anhawster i ymdopi oherwydd bod eich cartref wedi'i fomio chwe mis yn ôl ... Gyda phwy ydych chi'n mynd i siarad? ... Efallai na fyddwch chi'n siarad gyda (Enw) neu un o'r rhai eraill, ond os ydych yn gwybod bod gennych y person hwnnw (y cynorthwydd addysgu dwyieithog) i siarad ag ef... Wedi dweud hynny pan oeddwn i'n addysgu, byddai plant yn siarad â fi, ond mae angen, oni bai bod eich iaith yn ddigon da, sut allwch chi..." (Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)

"Wel yn amlwg rydyn ni i gyd wedi cael hyfforddiant ACEs, er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn ymwybodol o hynny... mae'n bwysig bod y staff yn gwybod beth allan nhw ei wneud gyda'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddyn nhw. Felly beth maen nhw'n ei wneud os bydd plentyn yn dweud rhywbeth wrthyn nhw neu'n mynegi teimlad..." (Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)



"Fel gweithwyr proffesiynol, dyw hi ddim yn amlwg bob tro, yn gorfforol, a dydych chi ddim bob amser yn gwybod beth yw anghenion (plant sy'n ceisio noddfa). Weithiau maen nhw'n dawl iawn ac wedi ymbellhau'n gymdeithasol ac mae'n cymryd llawer o amser iddyn nhw wneud ffrindiau a chymryd rhan. Weithiau maen nhw'n dod i mewn ac maen nhw'n orhyderus ac yn eithaf heriol o ran eu hymddygiad. Dydyn nhw ddim eisiau eistedd a gwrando, mae gormod yn digwydd. Maen nhw eisiau chwarae gyda'r lego, chwarae gyda'r clai, maen nhw eisiau bod ym mhob man. Dydyn nhw ddim yn barod i eistedd gydag athrawes ac edrych ar lyfr, a gorfod gwrando ar rywbeth. Maen nhw dros y lle i gyd. Felly mae pawb yn wahanol ... Ond wrth edrych ar yr ACEs, byddech yn meddwl, wel wrth gwrs byddai rhywbeth yno. Oherwydd os ydyn nhw wedi profi rhyw fath o drawma, boed hynny'n gadael eu cartref, eu bod wedi gweld rhywbeth erchyll, cael eu gwahanu oddi wrth aelodau eu teulu, neu beth bynnag. Mae rhyw fath o drawma yn 'd'oes? Felly wrth gwrs bydd angen rhywbeth arnyn nhw. Ond mae angen rhywbeth gwahanol ar bob plentyn. Ac mae'n golygu darparu ar gyfer hynny, gallu rhoi'r cymorth cywir iddyn nhw" (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

4) Bylchau a diffygion

Yn ystod y cyfweiliadau, cododd nifer o fylchau o ran cymorth, gwasanaethau a gwybodaeth i ysgolion wrth geisio cyflawni anghenion myfyrwyr sy'n ceisio noddfa.

Cyfeiriwyd yn gyson at anghenion ieithyddol yn ystod y cyfweiliadau.

Anghenion ieithyddol

Cyfeiriwyd yn gyson at anghenion ieithyddol yn ystod y cyfweiliadau. Canfuwyd bod rhai aelodau o staff ysgolion a gwasanaethau cymorth yn gallu cyflawni'r angen ieithyddol hwn a bod ganddynt y cyllid angenrheidiol gan ddefnyddio strategaethau addysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol, athrawon/cynorthwywyr addysgu dwyieithog, neu ddeunyddiau ysgol wedi'u cyfieithu. Fodd bynnag, roedd ysgolion eraill yn canfod - yn aml am nad oedd ganddynt gyllid neu adnoddau digonol - bod hyn yn fwlch gwirioneddol i fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid.

"Hoffwn i gael llawlyfr sylfaenol ar y prif ieithoedd y mae plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yn eu siarad ar sut i ddweud pethau penodol pan fydd eisiau mynd i'r toiled, pan fydd y plentyn eisiau bwyd, neu'n teimlo'n sâl ac yn y blaen... [yn nhermau pam nad yw'r gwasanaethau hyn ar gael], rwy'n credu mai'r diffyg adnoddau sydd ar gael yn gyffredinol yw'r broblem, ond hefyd yr unigolion perthnasol sy'n gallu siarad yn iaith plentyn sy'n geisiwr lloches ac yn ffoadur." (*Athro 2*)

"Dydyn ni ddim yn cyflogi staff (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol), maen nhw'n cael eu rhoi i ni. Ond ym, beth sydd gennym hefyd nawr yw bod yr athro sy'n dod atom sy'n siarad Saesneg. Ac mae hynny'n iawn, ond beth sydd ei angen arnom - beth roedden ni'n ei gael yn y gorffennol oedd staff (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) Arabeg, a oedd yn siarad gwahanol ieithoedd ac roedd gennym gysylltiad ar unwaith gyda'r teuluoedd drwy'r cyfieithu. Felly nawr bod gennym staff (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) sy'n dod atom sy'n siarad Saesneg yn bennaf, dydyn nhw ddim yn gallu darparu'r cymorth hwnnw yn nhermau iaith. Felly rydym yn gorfod cyflogi pobl sy'n siarad yr ieithoedd hynny i fod yn gyfieithwyr. Dydy hynny ddim yn - allwn ni ddim fforddio cyflogi cyfieithwyr. Ac os ydym yn cyflogi rhywun mae'n golygu ein bod yn eu cyflogi fel cynorthwywyr addysgu, neu fel staff cymorth. Ond os oes eu hangen ar gyfer cyfieithu yna mae'n rhaid i ni eu tynnu allan o'r dosbarth i ddarparu'r cyfieithiad hwnnw, sy'n amharu ar fywyd yr ysgol, os yw hynny'n gwneud synnwyr ... mae'n dipyn o rwystr i ni ar hyn o bryd yn nhermau, pe byai gennym y cyllid, neu pe byddem yn cael mwy o gymorth gan (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) byddem yn gallu cael y cyfieithwyr hynny i ddod i mewn i'r ysgol." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Gwybodaeth gefndir

Mae'r diffyg gwybodaeth gefndir am fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yn broblem arall a nodwyd mewn llenyddiaeth flaenorol. Er enghraifft, mae rhai astudiaethau wedi datgan y byddai athrawon yn teimlo eu bod wedi'u cymhwysu'n well i helpu myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid i lwyddo pe bai ganddynt fwy o wybodaeth gefndir am y plentyn (2). Mae athrawon nad ydynt yn gwybod beth yw gwybodaeth gefndir am fyfyrwr yn gorfod gwneud rhagdybiaethau wrth osod plentyn mewn dosbarth penodol, sy'n gallu creu problemau o ran integreiddio a chynhwysiant (2). Mae'r diffyg gwybodaeth gefndir hwn yn fater a gododd yn ein cyfweiliadau a chododd hyn hefyd mewn cysylltiad ag anghenion ieithyddol. Byddai gwybodaeth ystadegol am fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid wedi'i chroesawu hefyd gan rai o'r cyfweleion.



"Cyn i blentyn ddechrau yn yr ysgol, yn bersonol rwy'n credu y byddai'n fuddiol cael rhywfaint o wybodaeth gefndir am y plentyn, er mwyn deall credoau penodol, cyflyrau meddygol a hanes teuluol. Fel athro, rwyf hefyd yn credu y byddai'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol o alluoedd deallusol y plentyn cyn iddo ddod i'r ysgol, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni ddim yn ei addysgu islaw neu uwchlaw eu galluoedd cychwynnol. Roedd merch yn fy nosbarth y llynedd a oedd ddim yn gallu siarad unrhyw Saesneg na deall y gorchmynion sylfaenol mewn mathemateg, ond erbyn diwedd y flwyddyn hi oedd y gorau mewn mathemateg yn y dosbarth, ac ymhell o flaen plant a oedd wedi'u geni yn y wlad yma. I mi, mae'n debyg bod ganddi allu deallusol uwch cyn dod i'r wlad yma felly mae'n debyg nad oeddwn i'n gwella ei galluoedd fel y byddwn wedi gallu gwneud, pe bawn i'n gwybod beth oedd ei hanes addysgol [neu ei galluoedd yn y meysydd allweddol]." (*Athro 2*)

... mae'n debyg bod ganddi allu deallusol uwch cyn dod i'r wlad yma felly mae'n debyg nad oeddwn i'n gwella ei galluoedd fel y byddwn wedi gallu gwneud, pe bawn i'n gwybod beth oedd ei hanes addysgol ...

"Mae'n anodd iawn gwybod faint o ffoaduriaid sydd mewn dinas neu mewn ysgolion. Does dim gorfodaeth ar ysgolion i gofnodi'r wybodaeth honno. Rydych yn ceisio gadw llygad ar hyn, ond dim ond y rhai sydd wedi symud o statws ceisiwr lloches i ffoadur y byddwn ni'n gwybod amdanynt. Oherwydd does dim gorfodaeth ar neb i ofyn y cwestiwn hwnnw neu gasglu'r wybodaeth honno." (*Aelod o staff 2 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

Pennaeth cynorthwyol 1: "Rydyn ni wedi derbyn cryn dipyn o deuluoedd o Eritrea yn ddiweddar – ac mae ceisio dod o hyd i rywun sy'n siarad eu hiaith yn anodd iawn. Felly mae ceisio canfod digon o wybodaeth am eu cefndir a beth mae'r plant wedi'i brofi er mwyn cael trosolwg cychwynnol ohonyn nhw yn anodd iawn ar hyn o bryd."

Cyfweilydd: "Rwy'n tybio nad ydych yn cael llawer o wybodaeth gefndir..."

Pennaeth cynorthwyol 1: "Nac ydyn ... yn eithaf aml, byddwn ond yn canfod eu bod nhw'n geisiwr lloches pan fyddwn yn cael gwybodaeth gan y Cyngor. Felly bydd y wybodaeth honno'n cyrraedd ein swyddfa. Rydyn ni'n holi yn ystod y broses dderbyniadau a oes unrhyw ffoaduriaid neu geiswyr lloches. Bydd rhai yn dweud wrthy, ond fydd rhieni eraill ddim. Rwy'n credu eu bod nhw'n meddwl bod rhywfaint o stigma am hyn, os byddan nhw'n dweud wrthy chi eu bod nhw'n geisiwr lloches neu'n ffoadur maen nhw'n meddwl y byddwn ni'n eu trin yn wahanol. Ond dydyn ni ddim yn gwneud hynny o gwbl, Ond, ie, maen nhw'n poeni am hynny. Felly dydyn ni ddim yn gwybod bob tro. Felly dydyn ni ddim yn cael y wybodaeth bob tro..."

Anghenion emosiynol myfyrwyr

Mae'r diffyg cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i fyfyrwyr sy'n ceisio noddfa yn fater cyffredin a gododd yn ystod y cyfweiliadau. Unwaith eto, mae hyn yn ganfyddiad cyffredin mewn llenyddiaeth flaenorol, oherwydd mae llawer o astudiaethau wedi dangos rôl hollbwysig cymorth emosiynol i fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid (23,24,25).

Dyweddodd nifer o'r cyfweleion eu bod o'r farn bod diffyg cymorth iechyd meddwl ar gael ym mamiaith y myfyrwyr (nid diffyg cymorth iechyd meddwl uniongyrchol yn unig). Yn ogystal â hynny, soniodd dau gyfweilai am y ffaith nad problem i fyfyrwyr sy'n ceisio noddfa yn unig yw iechyd meddwl – mae'n broblem i bobl ifanc yn gyffredinol, er y gallai'r trawma ddwysáu i fyfyrwyr sy'n ceisio noddfa, o gymharu â myfyrwyr nad ydynt yn ceisio noddfa.

"Ond yn sicr mae yna ddiffyg o ran cyflawni [anghenion emosiynol]. Sef iaith. Nid mater o ddiffyg cwnselwyr yw hyn. Ond cael rhywun penodol sy'n deall y ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid ... Neu, hyd yn oed – os oes gennych gwnselydd ac yna mae gennych gyfieithydd, gall fod ychydig yn amhersonol. Dwi ddim yn gwybod sut i fynd i'r afael â hynny oherwydd mae cymaint o ieithoedd." (*Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Pe bawn i'n dweud un peth, oherwydd ni allwch wneud iawn [gwasanaethau cwnsela] mewn unrhyw ffordd arall... Ddylech chi ddim defnyddio cyfieithydd yn y sefyllfa hon. Dyna un peth rwy'n credu sydd wirioneddol ei angen. Does dim ffordd o amgylch hyn... Yn nhermau cymorth dwyieithog mewn ysgolion, gall gwirfoddolwyr, rhieni helpu ... [Ond] mae cwnsela yn faes mor benodol, dyna un peth sy'n wirioneddol brin yn fy marn i. Y pwynt yw mae ar gael ond nid yn eu mamiaith neu iaith y cartref." (*Aelod o staff 2 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Mae'r rhain yn broblemau cenedlaethol, os ydych chi'n fy neall i. Dydyn nhw ddim yn benodol i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Darpariaeth iechyd meddwl, cwnsela ... mae hyn yn broblem i bob plentyn. Felly byddwn i'n dweud bod hyn yn wir hefyd i geiswyr lloches a ffoaduriaid ... ie, byddai'n fwlch. Ond mae'n fwlch i bawb. Dyw e ddim yn waeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid, maen nhw'n rhan o'r system honno, rwy'n credu." (*Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Lleihau problemau iechyd meddwl yn y DU oherwydd mae'n mynd yn wirion yn tydi, ar draws y byd. A'r peth pwysig yw bod atal yn well na... thrin iechyd meddwl yn y dyfodol. Felly rydyn ni newydd drafod arwyddion trawma, a thrawma fydd y peth mawr." (*Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

Cyfwelydd: "Oes yna unrhyw beth rydych chi'n dymuno y gallech wneud mwy ohono i blant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?"

Pennaeth cynorthwyol 1: "Oes... Yn amlwg mae gennym ni ein cyfres ein hunain o, ym, rydym yn cynnal [gwahanol raglenni] er mwyn i ni allu rhoi mynediad i ddisgyblion sydd wedi dioddef trawma, i ryw raddau... Ond dydyn ni ddim wedi cael hyfforddiant proffesiynol ar hynny. Ac felly byddai cael rhywun a allai ddod i mewn a helpu i gwnsela rhai o'r plant yma ... Rydyn ni wedi cael plant yn y gorffennol sydd ofn synau uchel, a oedd yn cuddio o dan y byrddau pan fyddai hofrenyddion yn hedfan heibio, mae wedi bod yn... mae'n anodd, rydyn ni'n darparu lle diogel iddyn nhw ac yn amlwg, yn y pen draw, fe fyddan nhw'n teimlo'n ddiogel. Ond o ran yr iechyd meddwl a'r cwnsela sy'n gysylltiedig â hynny. Dwi ddim yn gwybod a ydyn ni'n gymwys i wneud hynny. Byddai'n wych cael rhywun a allai ddod i mewn a gwneud hynny."

Rydyn ni wedi cael plant yn y gorffennol sydd ofn synau uchel, a oedd yn cuddio o dan y byrddau pan fyddai hofrenyddion yn hedfan heibio

Cymorth i geiswyr noddfa – anghyfartalwch o ran mynediad at eiriolaeth

Roedd cymorth anghyfartal i geiswyr lloches, y cyfeiriodd y cyfweleion ato, yn cyfeirio at sut y derbyniodd ffoaduriaid o Syria a ddaeth drwy Raglen Adsefydlu Pobl Agored i Niwed o Syria lawer mwy o gymorth o gymharu â cheiswyr lloches o Syria neu geiswyr lloches eraill na ddaethant drwy'r rhaglen (a oedd wedi dod i'r DU eu hunain ac nad oeddent wedi cyrraedd ar gynllun a chanddo statws ffoaduriaid). Yn benodol, ystyriwyd ei bod yn bwysig cael eiriolaeth ar gyfer cael mynediad at ysgol a sicrhau pecynnau cymorth, ond dim ond adnoddau i ddarparu'n uniongyrchol ar gyfer y rhai ar raglenni arbennig y Swyddfa Gartref yr oedd gan y gwasanaethau cymorth.

Ni allai cyfweleion wahaniaethu bob amser rhwng y categorïau o bobl sy'n ceisio noddfa (ceiswyr lloches, ffoaduriaid, y rhai a oedd wedi cyrraedd ar raglenni adsefydlu'r llywodraeth gyda statws ffoaduriaid awtomatig); nid oedd pob cyfwelai o reidrwydd yn deall tirlun cymhleth y broses ceisio lloches.

"Ond os ydych yn cael ceiswyr [lloches/noddfa], hyd yn oed o Syria, sydd heb ddod yma drwy'r cynllun [adsefydlu pobl Syria] ... Dw i ddim yn hoffi hynny, dydy e ddim i weld yn deg i mi ... Felly, mae ysgolion gydag ambell un o'r rheini yn cael 2000 [o bunnoedd y flwyddyn], ond dyw ysgol i lawr y ffordd gyda 10, 15 o fyfyrwyr o Syria ... ddim yn derbyn unrhyw arian ychwanegol ac eithrio'r arian arferol [lwfans addysg] wrth gwrs gan Lywodraeth Cymru y pen. Rwy'n credu y dylai pob ceisiwr lloches gael yr un cymorth." (*Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Mae yna lawer o gymorth yn cael ei ddarparu gyda'r Cynllun Pobl Agored i Niwed o Syria. Mae hynny wedi creu system dwy haen mewn ffordd. Felly mae gennych y teuluoedd hynny sy'n dod yma ac sy'n cael tŷ a lle mewn addysg, ac mae 'na gyllid ychwanegol sy'n dod gyda nhw. Ac mae ganddyn nhw statws ffoaduriaid pan fyddan nhw'n cyrraedd. Mae hynny'n galluogi prynu cymorth – felly gallai hynny fod yn gymorth sy'n gysylltiedig â thrawma, yn gysylltiedig â llythrennedd. Unrhyw beth, sy'n dod gyda'r cyllid hwnnw ... Ac efallai i'r ceiswyr lloches hynny sy'n dod ar eu pen eu hunain ac nid drwy'r cynllun – gallai fod bwlch yna." (*Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol: "Er mwyn i blentyn gael ei dderbyn yn yr ysgol, maen rhaid cael cyfweliad gyda'r pennaeth a'r rhieni ... Maen nhw'n cael cyfweliad cyn penderfynu, 'oce, nawr gallwch ddechrau ddydd Llun nesaf.' Felly mae (Enw) yn mynd i'r [cyfweliadau ar gyfer ceiswyr lloches/noddfa sydd wedi dod i mewn drwy'r rhaglen adsefydlu], ond rwy'n credu y dylai fod yn bwysig ein bod ni'n [rhywun] gweld pob un ohonyn nhw. Dylai pob ceisiwr lloches fod yr un mor bwysig â'i gilydd."

Cyfweilydd: "lawn. Felly does neb o (gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) yn mynd i unrhyw un o'r cyfweliadau eraill?"

Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol: "Nac oes. Ein mewnbwn ni yw hyfforddi ysgolion i... Rydych chi'n darganfod gwybodaeth ychwanegol, drwy ddefnyddio'r ffurflen hon. Mae gennym ffurflen ychwanegol rydyn ni'n gofyn i ysgolion ei chwblhau am eu cefndir addysgol ... pethau felly."

Cyfweilydd: "Ond byddech chi'n hoffi cael rhywun i eirioli ar eu rhan yn yr ysgol..."

Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol: "Byddwn. Yng nghyfweliad derbyn pob ceisiwr (lloches/noddfa) [nid dim ond y rhai sy'n dod drwy'r rhaglen adsefydlu]. I wneud yn siŵr eu bod yn cael cyfaill, i wneud yn siŵr eu bod yn cael cyfieithydd..."

Rhannu arferion da a phrofiadau yn y sector addysg

Soniodd rhai o'r cyfweleion am ddyhead am fwy o gyfathrebu ar draws sefydliadau, ysgolion a gwasanaethau cymorth.

"Rwyf wedi rhannu popeth rwyf wedi'i wneud, felly pan fydda'i wedi gwneud y cyflwyniad gyda phobl ac mae pobl wedi dod i mewn i gael hyfforddiant, rwyf wedi anfon lluniau o eiriaduron atyn nhw drwy e-bost... Llundiau mewn Arabeg, pwy ydym ni, pethau fel y toiled a'r ffreutur ac yn y blaen. Felly rwyf wedi rhannu'r adnoddau hynny gyda'r athrawon eraill sydd wedi dod aton ni a phobl sydd wedi anfon e-bost yn gofyn am hynny." (*Athro 1*)

"Mae (Sefydliad y trydydd sector), mae'r holl bethau yma'n digwydd, ond does neb i weld yn eu cysylltu nhw â'i gilydd. Felly mae'n faes dyrys. Pwy sy'n gwneud beth a phryd ... oherwydd maen nhw i gyd yn cael eu hariannu ar brosiectau tymor byr. Weithiau, erbyn i chi ddod i wybod beth sy'n digwydd, mae'n cael ei newid. Felly mae yna fwlch mewn gwirionedd..." (*Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

... mae'r holl bethau yma'n digwydd, ond does neb i weld yn eu cysylltu nhw â'i gilydd.

"Mae'n ymwneud â jest cysylltu. Oherwydd yn eithaf aml mae yna elusen yn bodoli, neu mae rhywbeth ar gael ond dydyn ni ddim yn ymwybodol ohono. Byddwn yn hoffi mwy o gyfathrebu ... A byddai hynny'n ddefnyddiol iawn ... Ond mae pethau fel wythnos ffoaduriaid a chodi ymwybyddiaeth, mae hynny i gyd yn helpu. Ond byddai mwy o hynny'n braf... oherwydd mae'n eithaf rhwystredig yn fy marn i. Pan ydych chi eisiau helpu ond dydych chi ddim yn siŵr ble i fynd." (*Pennaeth cynorthwyl 1*)

Diffyg addysg tra'n aros i gael eu gwasgaru

Math arall o fwlch a gododd oedd y diffyg safleoedd addysg/ysgol ar gyfer plant sy'n geiswyr lloches pan fyddant yn aros i gael eu gwasgaru.

"Rydym yn ardal wasgaru ar gyfer y Swyddfa Gartref felly mae yna system yn bodoli lle maen nhw'n cael eu gwasgaru, mae'r plant yn y system honno nes byddan nhw'n cael eu gwasgaru naill ai o fewn Cymru... A thra bod y plant yn aros am y penderfyniad does ganddyn nhw ddim mynediad at ysgol, nes i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud..." (*Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth*)

Diffyg cyfleoedd gwirfoddoli i rieni sy'n geiswyr lloches

Bwlch arall a gododd oedd y gallai rhieni sy'n ceisio noddfa fod yn awyddus i wirfoddoli mewn ysgolion neu yn eu cymuned, ond mewn rhai ardaloedd, nid oes system ar waith i hwyluso hyn.

"Beth fyddai'n dda fyddai – oherwydd nad yw'r ceiswyr lloches yn cael gweithio – mae llawer ohonyn nhw'n awyddus iawn i wirfoddoli ... Dydy'r system honno ddim i'w gweld fel pe bai'n bodoli. Byddai'n dda cael rhaglen genedlaethol a fyddai'n dweud, 'iawn, mae'r bobl hyn yn geiswyr lloches, maen nhw eisiau gwirfoddoli.' Does ganddyn nhw dim 30/40 o bunnoedd i wneud eu gwiriadau eu hunain, gwiriadau'r swyddfa cofnodion troseddol ac yn y blaen. Allwn ni ddim disgwyl iddyn nhw wneud hynny. Ond byddai cael rhaglen a fyddai'n gallu eu cynorthwyo i wirfoddoli..." (*Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

... nad yw'r ceiswyr lloches yn cael gweithio – mae llawer ohonyn nhw'n awyddus iawn i wirfoddoli.

5) Croesawu amrywiaeth

Mae deall y manteision y mae croesawu amrywiaeth yn ei gyfrannu at ddiwylliant ysgol yn hollbwysig i iechyd ysgol ac i lesiant unrhyw fyfyrwr â chefnidir lleiafrifoedd ethnig. Mae llenyddiaeth wedi pwysleisio pwysigrwydd cynhwysiant ac integreiddio i fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid mewn ysgolion a bod hynny'n hollbwysig ar gyfer iechyd a llesiant myfyrwyr sy'n ceisio noddfa (1,2,6).



Pwysigrwydd cynhwysiant

Cododd sawl enghraifft o gynhwysiant a'i bwysigrwydd yn ystod y cyfweiliadau.

"Roedd y dosbarth roedden nhw ynddo ... roedden nhw'n blant mor hyfryd. Roedden nhw mor groesawgar ar unwaith. Roedden nhw'n gyffrous iawn pan wnaethon ni gyhoeddi ein bod yn cael dwy ferch o Syria. Ac ar ôl mynd adref y noson honno roedden nhw wedi ysgrifennu tua deg llythyr i ddod gyda nhw y diwrnod canlynol a chardiau. Roedden nhw wedi mynd adref ac wedi teipio yn Google translate, ac wedi dod â llythyrau a chardiau i mewn ac mae'r gymuned ei hun wedi bod yn wych. Mae rhieni wedi bod yn cynnig dillad, os oedd angen setiau teledu, popti microdon arnyn nhw... ac maen nhw'n boblogaidd iawn... doedd (myfyriwr sy'n ceisio lloches) ddim yn gwisgo'r sgarff pen am y chwe mis cyntaf. Yna daeth i mewn yn gwisgo'r sgarff ac ni wnaeth unrhyw un o'r plant ofyn pam ei bod yn ei wisgo..." (*Athro 1*)

Roedden nhw'n gyffrous iawn pan wnaethon ni gyhoeddi ein bod yn cael dwy ferch o Syria.

"Oherwydd ein bod ni eisiau iddyn nhw wneud hynny. Mae'n ysgol, mae (Enw'r ysgol) yn ysgol sy'n parchu ein gilydd ac mae hynny wedi'i ymgorffori'n llwyr yn ein diwylliant, ein bod yn parchu safbwyntiau a barn ein gilydd a'n gwahaniaethau. Mae hynny'n rhan o fod yn ddinesydd sy'n wybodus am leiafrifoedd ethnig yn anad dim. Ac mae'n ddiwylliant sydd wedi bwrw gwreiddiau yma." (*Pennaeth 1*)

"Felly rydyn ni wedi edrych yn fanylach ar ein cwricwlwm ... yn nhermau addysgu'r plant am ffoaduriaid ac adrodd hanesion ffoaduriaid a galluogi'r plant i siarad am hyn ychydig yn fwy agored." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Yn yr un modd, pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni yn yr ysgol yn ogystal â'u helpu i ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

"Rwy'n teimlo fy mod yn gallu datblygu perthynas dda gyda'r gofalwr er mwyn gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus – os ydyn nhw'n gwybod eich bod yn gallu gwneud y gorau i'w plentyn, maen nhw'n fwy parod i ymddiried ynoch chi, yn arbennig pan fyddwch yn rhoi mwy o amser i'r rhieni hynny ddeall pethau... mewn noson rieni neu rywbeth." (*Athro 2*)

"Mae gennym restr hir iawn o bethau i'w gofyn i'r rhieni. A byddwn yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw am yr ysgol er mwyn i'r rhieni wybod beth yw enw'r athro dosbarth, gwybod am y wisg ysgol, gwybod am ginio ysgol, gwybod am yr amseroedd dechrau, yr amser casglu, gwyliau'r ysgol, y manylion hynny i gyd, ym, sut mae'r system addysg yn gweithio, oherwydd yn aml dyw rhieni ddim yn gwybod hynny pan fyddan nhw'n cyrraedd yma ... Felly mae ein derbyniadau'n cymryd cryn dipyn o amser, bydd y cyfweiliad yn cymryd tuag awr a mwy fel arfer" (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Pennaeth cynorthwyol 1: "Yn nhermau'r gwasanaethau lleol, rydym yn defnyddio (Sefydliad y trydydd sector). Mae hynny'n adnodd gwych i'n teuluoedd, ac rydym yn cyfeirio pob teulu sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid atyn nhw cyn gynted ag y byddan nhw'n cyrraedd."

Cyfwelydd: "Beth yw'r prif reswm y byddwch chi'n eu hatgyfeirio nhw?"

Pennaeth cynorthwyol 1: "Ym, i fod yn onest, ffitio i mewn i gymdeithas, gwneud grwpiau cymdeithasol. Felly mae ganddyn nhw ffrindiau y gallen nhw eu cyfeirio at leoedd i gael dillad, bwyd, banciau bwyd, rydym yn ysgol sy'n dosbarthu ar ran banc bwyd felly gallwn roi talebau banc bwyd iddyn nhw. Ond mae'n amgylchedd cwbl wahanol yno. Ac maen nhw gyda phobl sydd yn yr un cwch â nhw, felly maen nhw'n gwneud ffrindiau ac mae hynny i gyd yn eu hamgylchedd lleol. Felly rydyn ni'n gwneud pethau fel rhoi amserlenni bysiau, rydyn ni'n rhoi pethau fel gwybodaeth am y meddygfeydd y gall pobl eu defnyddio, lle i fynd i gael gofal iechyd, gofal deintyddol, pethau fel hyn. Ond yn amlwg maen nhw'n cael llawer mwy o gymorth gan (Sefydliad y trydydd sector)."

Fodd bynnag, siaradodd rhai o'r cyfweleion am y ffaith nad oes digon o ymgysylltu a/neu gysylltiad â bywydau cartref a theuluoedd myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid. Yn ogystal, er y gallai ymgysylltiad ffurfiol fodoli gyda'r teulu, nodwyd y gellir rhoi mwy o bwyslais ar broses fwy anffurfiol, organig (ac sydd felly'n fwy cynaliadwy) o gynnwys teuluoedd sy'n ceisio noddfa yn y gymuned leol.

"Mae gennym rai ysgolion sy'n cynnal ... dosbarthiadau ymgysylltu â theuluoedd. Ond rwy'n credu bod angen mwy o hynny ac y byddai hynny'n helpu teuluoedd i integreiddio a meithrin hyder mewn pethau fel, mynd i'r ysgol, oherwydd gall fod braidd yn frawychus iddynt. Hyd yn oed os ydych wedi'ch addysgu ond ddim yn gallu siarad yr iaith, rydych chi'n teimlo eich bod am aros draw o'r ysgol. Oherwydd gall fod yn eithaf heriol." *(Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

"A dyw hyn ddim yn golygu canolbwyntio ar iaith o reidrwydd, ond cwrdd â'r rhieni, cwrdd â phobl eraill yn y gymuned, yn lleoliad yr ysgol i ddileu'r rhwystrau hynny, 'Rwy'n teimlo ychydig yn ofnus o fynd i'r ysgol.' Oherwydd dwi ddim yn gallu siarad ... Ond dwi'n credu mai'r darn anffurfiol yna. Felly efallai y gallai'r rhieni ddod i mewn rhwng 3 a 4. Cael paned o de, coffi, ymarfer eu Saesneg ... mae llawer o waith da yn digwydd o ran ymgysylltu â theuluoedd ond dwi ddim yn credu ei fod wedi'i dargedu'n ddigonol ar gyfer y teuluoedd hynny o ffoaduriaid sy'n geiswyr lloches." *(Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

... mae llawer o waith da yn digwydd o ran ymgysylltu â theuluoedd ond dwi ddim yn credu ei fod wedi'i dargedu'n ddigonol ar gyfer y teuluoedd hynny o ffoaduriaid sy'n geiswyr lloches.

"Y peth arall, fel y soniais i o'r blaen, oedd cael y cyswllt hwnnw gyda'r cartref. A'r hyn rydy ni'n ei ganfod yn gymharol aml yw bod y teuluoedd sy'n dod aton ni yn – ac rwy'n siŵr bod hyn yn broblem i geiswyr lloches sy'n dod i'r ddinas nid o reidrwydd oherwydd eu bod yn yr ysgol – ond pan fydd y teuluoedd yn dod aton ni ac yn dweud bod angen cymorth aryn nhw, rydyn ni'n dweud, mae'n ddrws agored, dewch i mewn, mae gennym swyddog cyswllt teuluoedd, dewch i siarad gyda ni. Ond y problemau iddyn nhw bob tro yw tai, arian, y ffaith nad ydyn nhw'n gallu gweithio, nad oes grŵp cymdeithasol ganddynt" *(Pennaeth cynorthwyol 1)*

Symboleiddiaeth

Mae diwylliant ysgol sy'n croesawu amrywiaeth ac amlddiwylliannedd yn hollbwysig i lesiant unrhyw fyfyrwr â chefnidir lleiafrifoedd ethnig (yn ogystal â bod yn hollbwysig i iechyd cyffredinol ysgol). Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn symboleiddiaeth hiliol.

"Yn aml mae ysgolion yn credu eu bod nhw'n gynhwysol ond yn aml iawn mae'n symbolaidd iawn, nes y cewch chi newid mawr yn y ddealltwriaeth. Mwy o anawsterau pan fyddwch yn edrych ar integreiddio ac yn y blaen ... cysylltiadau â chydaddoldeb, sylweddoli bod gennych ragfarnau eich hun. Mae hyn yn broblem fawr, ydy wir, mae'n enfawr ... Mae ysgolion wrth eu boddau'n gwneud pethau fel diwrnodau rhyngwladol, ond heb wneud hynny gan edrych ar yr amrywiaeth diwylliannol yn y cwricwlwm, neu wneud pethau drwy lens o liw gwahanol. Mae hynny'n pwysleisio gwahaniaeth." (*Aelod o staff 2 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Ac mae llawer o ysgolion yn gwneud gwaith da iawn, ond ... rydyn ni'n dal mewn twll ... ac nid i gyd oherwydd agweddau hiliol... mae angen newid mawr. Ond dwi ddim yn credu bod dull o'r brig i'r bôn yn iawn 'chwaith. Modelau rôl ethnig yn y proffesiwn addysgu, mewn awdurdodau lleol, does 'na ddim o hynny ... mae'n mynd i gymryd llawer o amser i newid hynny." (*Aelod o staff 2 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

6) Strategaethau cefnogol effeithiol

Roedd yna lawer o strategaethau cefnogi yr ystyriwyd eu bod yn effeithiol a defnyddiol i gyfweleion er mwyn cyflawni anghenion myfyrwyr sy'n ceisio noddfa a gwella eu profiadau.

Cymorth ieithyddol

Fel y soniwyd uchod, cyfeiriwyd yn aml yn ystod y cyfweiliadau am anghenion ieithyddol y boblogaeth o fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid. Cyfeiriodd y cyfweleion yn benodol yn y cyfweiliadau at effeithiolrwydd cynorthwywyr addysgu dwyieithog a strategaethau addysgu penodol ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

"Ond rydyn ni'n credu mai cynorthwywyr addysgu dwyieithog yw'r rhan [mwyaf gwerthfawr] o (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)" (*Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Wel, rydyn ni'n darparu'r addysg, rydyn ni'n ceisio cynyddu capasiti ysgolion... Felly rydyn ni'n cynorthwyo'r ysgolion yn helaeth gyda sut y gallen nhw gefnogi dysgu (myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid). Gyda lluniau, gwrthrychau, banciau geiriau a phethau tebyg. Felly dyna lle byddwn yn gwneud ein prif waith." (*Aelod o staff 3 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Y llynedd llwyddais i gael cyswllt yn (gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) a fu'n fy nghefnogi ac yn darparu help os oes ganddyn nhw amser drwy eistedd i lawr a helpu'r plentyn... llwyddodd un wraig benodol a oedd yn gweithio i (gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) y llynedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau pan oeddwn i'n trafod gwahanol lysiau ac roedd yn gallu dweud wrth y plentyn beth oedd y rhain yn ei mamiaith a galluogi'r plentyn i ddysgu eu henwau yn Saesneg... roeddwn i'n meddwl bod hynny'n ddefnyddiol iawn..." (*Athro 2*)

... llwyddodd un wraig benodol ... i gymryd rhan mewn gweithgareddau pan oeddwn i'n trafod gwahanol lysiau ac roedd yn gallu dweud wrth y plentyn beth oedd y rhain yn ei mamiaith a galluogi'r plentyn i ddysgu eu henwau yn Saesneg... ..

"Rwy'n credu mai mater o hyder yw hyn... Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'r athrawon eraill wedi dweud ar unwaith, fydden ni ddim yn gwybod ble i ddechrau ... Dyna lle mae (gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) wedi bod yn arbennig o dda mewn ysgolion eraill, yn cefnogi athrawon mewn..." (*Athro 1*)

"Mae gennym ni system cod lliwiau felly maen nhw'n deall y gwahanol ddosbarthiadau o eiriau, maen nhw'n deall bod y berfau yn felyn, os ydyn nhw'n gweld blwch melyn maen nhw'n gwybod ar unwaith y bydd yn air 'gwneud'. Os yw'n wyrdd mae'n enw, enw person neu enw peth... Felly mae hynny ar y wal ym mhob ystafell ddosbarth. Mae i'w weld ym mhobman ... Ac unwaith eto mae'n sylfaenol iawn, ond mae'n ymwneud â strwythur brawddegau. Felly mae (ceiswyr lloches a ffoaduriaid) wir yn astudio'r iaith, yn deall y strwythur." (*Athro 1*)

"Rwy'n credu bod pob dim wedi helpu, y ffordd yr aeth rhywun ati. Y Pictionary, y semanteg liwgar, y print cyfathrebu, rydych wedi addysgu strwythur yr iaith. Roedd gennych – oherwydd fyddai hynny ddim gennym ni – pan fydd athrawon yn dweud na fyddai ganddyn nhw syniad sut i ddechrau, byddai pobl o ddifrif wedi bod yn meddwl, 'wel, mi wna i gario 'mlaen a gobeithio eu bod yn dysgu'r iaith wrth fynd yn eu blaenau.' Yn wahanol i ddealltwriaeth wirioneddol pan fydd gennych blant yma, bod angen i chi addysgu Saesneg fel iaith dramor, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod y strwythurau hynny ar waith gennych, er mwyn iddyn nhw allu dechrau deall y ramadeg." (*Pennaeth 1*)

Dosbarth 'Newydd i Saesneg'

Roedd cael dosbarth a oedd ond yn cynnwys myfyrwyr a oedd yn newydd i'r iaith Saesneg yn strategaeth ddefnyddiol a ddefnyddiwyd mewn un ysgol â nifer fawr o fyfyrwyr mudol, gan gynnwys myfyrwyr a oedd yn ceisio lloches, neu fyfyrwyr nad Saesneg oedd iaith gyntaf eu haelwydydd.



"Roeddem yn canfod ein bod yn derbyn cymaint o o fyfyrwyr newydd ar hyd y blynyddoedd, rhai ohonynt yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid, nid pob un, ond roeddent yn dod i mewn heb unrhyw Saesneg o gwbl a doedd gan rai ddim cefndir addysgol o gwbl. Felly, erioed wedi bod mewn ystafell ddosbarth ... a rhai ohonyn nhw'n ddisgyblion hŷn. Felly wnaethom ni drefnu'r dosbarthiadau hynny er mwyn i ni allu darparu modelau rôl Saesneg ond hefyd er mwyn i ni allu eu haddysgu mewn ffordd wahanol. Felly rydym yn gor-addysgu'r [anghlywadwy], yn addysgu llawer o eirfa, rydym yn cael llawer o amser cylch, rydym yn gwneud llawer o bethau mewn ffordd ymarferol. Rydym yn [anghlywadwy] ar sail chwarae, oherwydd yn aml iawn nid yw'r plant wedi cael y cyfle i ddysgu drwy chwarae. Felly rydym yn darparu'r cyfle hwn iddyn nhw ... Pan fydd y plant wedi datblygu digon o Saesneg yna byddan nhw'n cael mynediad at y cwricwlwm." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

"A dyna pam mae gennym y dosbarthiadau hyn o'r rhai sy'n newydd i Saesneg. Oherwydd roedd yn anodd iawn ceisio cael y plant hynny i ddod i mewn ac ymuno ag ystafell ddosbarth brif ffrwd lle mae'r plant yn eistedd, yn gweithio, dysgu, gwrando yn Saesneg. Ac roedd yr athrawon yn dueddol o ddweud eu bod yn teimlo'n euog. Y bydden nhw'n treulio llawer o amser gyda'r plant a oedd angen y chwarae... Neu eu bod yn ceisio gwithio safonau ac addysg y plant a oedd yn gallu dysgu... Felly roedden ni'n meddwl bod angen i ni wneud rhywbeth am y peth. Roedd yn rhaid i ni ddiwallu eu hanghenion... felly mae hyn yn gweithio i ni ar hyn o bryd. A'r adborth rydyn ni'n ei gael gan y disgyblion yw eu bod yn mwynhau bod yn yr amgylchedd hwnnw." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Cyfeirio

Roedd cyfeirio yn thema a gododd yn aml yn y cyfweiliadau. Roedd yr ysgolion yn cyfeirio rhieni at adnoddau amrywiol, ac roedd gwasanaethau cymorth yr awdurdodau lleol yn cyfeirio ysgolion at wahanol wasanaethau a sefydliadau.

"Mae pob ysgol yn (ein dinas) yn gwybod am (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol), felly nid oes problem o ran peidio â gwybod lle i fynd. Mae pawb yn gwybod am (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol). Felly maen nhw'n gwybod ein bod ni yma. Felly i gael cymorth ieithyddol maen nhw'n dod aton ni. Ym, yn arbennig ar gyfer y cymorth i rieni, byddan nhw'n dod aton ni. Felly rydyn ni yma ... Ac os bydd unrhyw beth yn codi... mae posibilrwydd bod gan rai o'n plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid anghenion emosiynol cymhleth iawn. Efallai y bydd ysgolion yn cysylltu â ni ac yna'n aml, efallai y byddwn yn eu cyfeirio, gan ddweud dyma'r person y dylech chi gysylltu ag ef. Felly weithiau ni sy'n llenwi'r bwlch. Ie, fel arwyddbost..." (*Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Ym, hefyd mae bod yn (ein dinas), mae pethau fel Wythnos Ffoaduriaid yn dda iawn i ni oherwydd mae'n codi ymwybyddiaeth, yn rhoi mynediad i ni at fwy o adnoddau, bydd llawer o elusennau yn cyhoeddi adnoddau y gallwn eu defnyddio fel staff ... Ond fe gawson ni lawer o wybodaeth yn [y gynhadledd honno] am bobl eraill y gallwn gyfeirio rhieni atyn nhw. Felly mae'n golygu, hyd yn oed pan fydd pethau fel hyn yn cael eu trefnu, os ydyn ni'n ymwybodol ohono, gall rhywun eu mynychu a gallwn gael mwy o wybodaeth." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

... mae'n golygu, hyd yn oed pan fydd pethau fel hyn yn cael eu trefnu, os ydyn ni'n ymwybodol ohono, gall rhywun eu mynychu a gallwn gael mwy o wybodaeth.

Ymgysylltu â theuluoedd

Soniwyd am bwysigrwydd cael swyddog penodol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd ar gyfer teuluoedd sy'n ceisio noddfa ar gyfer un ysgol.

"Ie, felly, y [broes] derbyniadau [yn ein hysgol] – mae'r rhieni yn ei wneud ar-lein yn awr. Mae hynny'n achosi problemau i lawer o deuluoedd, yn arbennig teuluoedd ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pan fyddan nhw'n cyrraedd yma oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu cael mynediad... Mae angen cyfeiriad e-bost arnyn nhw, dydyn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud, mae yn Saesneg, does ganddyn nhw ddim cefnogaeth, mae'n anodd iawn. Felly yn aml byddwn yn cael teuluoedd i mewn sy'n dweud, rydyn ni eisiau dod i'r ysgol hon, ond dydyn ni ddim yn gwybod sut i wneud hynny. Felly dyna pryd y bydd (Enw), ein swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn helpu. Bydd yn helpu pobl i gwblhau'r ffurflenni derbyniadau." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o faterion

Profwyd bod codi ymwybyddiaeth yn agwedd hollbwysig ar yr hyfforddiant mae gwasanaethau cymorth yn ei gynnig; pwysleisiwyd pwysigrwydd deall a bod yn sensitif i anghenion a phrofiadau myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yn gyffredinol drwy'r cyfweiliadau. Un dull o godi ymwybyddiaeth oedd drwy raglenni School of Sanctuary a City of Sanctuary sy'n atgyfnerthu diwylliant o ymwybyddiaeth, drwy broses o hunanfyfrio o fewn sefydliad.

"A hefyd y ffaith eu bod wedi rhoi archwiliad i ni edrych arno, a gallu gwneud cais amdano, ac mae wedi golygu ein bod wedi gallu hunanfyfrio ar bethau. Felly bydd gennym bethau eraill yn yr ysgol – mae gennym ni systemau cyfeillio. Felly pan fydd plant yn dod i ysgolion byddwn yn eu cyfeillio gyda rhywun sy'n siarad eu hiaith sydd wedi bod yma am gyfnod hwy. Er mwyn rhoi'r cyswllt uniongyrchol iddyn nhw. Ac mae'r archwiliad hwn wedi rhoi cyfle i ni edrych yn ôl ac adolygu'r holl bethau rydym wedi'u rhoi ar waith." (*Pennaeth cynorthwyol 1*)



"Felly pan fyddwn yn gwneud ein hyfforddiant mae'n ymwneud â'r math yna o beth.

Addysgu... A gofyn i bobl roi eu hunain yn yr esgidiau hynny..." *(Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

Cyfwelydd: "Pa wasanaeth mae (Gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol) yn ei ddarparu, sy'n un o'r gwasanaethau pwysicaf o bosibl, i'r boblogaeth hon?"

Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol: "Rwy'n meddwl ei fod yn fater o godi ymwybyddiaeth. Beth yw ceisiwr lloches, beth yw ffoadur. Chwalu'r mythau, rydyn ni'n byw mewn byd lle mae pobl yn eithaf beirniadol, gyda Brexit, gyda Trump, mae gennych lawer o faterion sy'n ymwneud â chydlyniant. Mae'n fater o nodi'r ffeithiau, fel y ffaith eu bod yn cael 35 punt yr wythnos, dydych chi ddim yn gweld hynny yn y Mail ... Y math yna o hyfforddiant ... Rwy'n credu ei fod yn codi ymwybyddiaeth. Dyw pobl ddim yn gwybod y pethau 'ma nes i chi ddweud wrthyn nhw."

"Gwneud yn siŵr pan fydd staff yn dod i mewn eu bod yn ymwybodol o beth yw ceisiwr lloches a beth yw ffoadur. Oherwydd weithiau mae gennym rai aelodau o staff sy'n ymuno â ni a dydyn nhw ddim yn ymwybodol, mae rhai staff wedi bod yma am gyfnod hwy, a bydden nhw'n gwybod mwy. Rydyn ni wedi gwneud dipyn o waith i chwalu mythau ynglŷn ag o ble mae ceiswyr lloches yn dod, faint o geiswyr lloches sy'n ymgartrefu yn yr ardal yma. Ond, ym, rydyn ni hefyd wedi edrych ar yr effaith maen nhw'n ei chael ar gymdeithas. Felly rydyn ni wedi cynnal y math yna o hyfforddiant gyda'r staff a gyda'r disgyblion hefyd." *(Pennaeth cynorthwyl 1)*

Soniodd un cyfwelai am enghraifft benodol a oedd yn dangos pwysigrwydd bod yn sensitif ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

"Mae hefyd yn anodd iawn, rwyf wedi cael achosion yn y gorffennol pan oedden ni wedi gofyn am gyfieithwyr ar gyfer adolygiadau achos ar gyfer plant, ar gyfer ... dibenion neu bethau eraill, gwaharddiadau, er enghraifft ... ac rydych chi'n gofyn am rywun ... drwy sianel swyddogol er mwyn cael cyfieithydd sy'n ddiduedd. Ac mae'r cyfieithydd yn siarad Somalieg, ond yn dod o Somalia ac nid o Somaliland, a dyma yw'r ddwy ... mae yna ryfel cartref yn digwydd yno... Felly doeddech chi ddim eisiau i'r person Somali fod yn cyfieithu ar gyfer y bobl sy'n dod o Somaliland. Felly dyw'r ffaith bod pobl yn siarad yr un iaith ddim o reidrwydd yn gweithio. Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol iawn o'r cefndiroedd. Er enghraifft, mae rhywun sy'n siarad Arabeg, ond yn dod o ran wahanol o'r byd... yn gallu achosi tensiwn. O ran yr achos hwnnw, achos y Swyddfa Gartref oedd e ac ym, pan sylweddolodd y bachgen bach bod y dyn yn dod o'r lle hwnnw, fe guddiodd o dan y bwrdd a gwrthod dod allan. Ond roedd hynny am ei fod wedi gweld pethau erchyll yn digwydd. Felly mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio cyfieithwyr." *(Aelod o staff 4 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol)*

7) Arwyddocâd ehangach y strategaethau hyn

Gwireddu potensial a galluogi myfyrwyr sy'n ceisio noddfa i fyw bywydau ystyrlon

Yn yr adran uchod ar strategaethau cefnogol, roedd awgrymiadau yn natganiadau pob un o'r cyfweleion yn deillio o ddyhead i alluogi myfyrwyr sy'n ceisio lloches ac i wella eu profiadau. Mae gwerth a diben trafod y strategaethau hyn yn gysylltiedig â'r posibilrwydd o rymuso myfyrwyr i fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac ystyrlon.

"I mi, dyna oedd y fantais arall o gael y cyllid angenrheidiol ... mae'n rhoi'r gallu i'r ysgol ei hun ddarparu ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ... a gallu gwybod sut i fynd ati i'w haddysgu a sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau un." (*Pennaeth 1*)

"Hefyd, gall y cynorthwyrwyr addysgu dwyieithog drosglwyddo gwybodaeth, fel, 'chi'n gwybod beth, mae'n wych am chwarae'r piano,' er enghraifft ... sy'n golygu wedyn eu bod yn gofyn i'r plentyn hwnnw ymuno â'r gerddorfa, sy'n golygu os ydyn nhw yn y gerddorfa, maen nhw'n hapus. Mae'n syndod sut mae gwybodaeth ... cael rhywun yna i gyfathrebu yn helpu." (*Aelod o staff 1 gwasanaeth cymorth yr awdurdod lleol*)

"Pan fydd plant yn gwybod eich bod chi'n gallu siarad eu hiaith ... maen nhw'n fwy agored ac weithiau byddan nhw'n rhannu, byddwch chi'n gweld beth maen nhw wedi'i wneud gartref ... efallai y byddan nhw'n rhannu sut maen nhw'n teimlo, yn dibynnu ar eu hoedran, a dweud beth maen nhw eisiau ei ddweud. Mae ganddyn nhw'r cysylltiad yna." (*Cydlynnydd ceiswyr lloches 1*)

"Mae angen i chi ganiatáu i'r plentyn weld ei fod yn gallu cyflawni'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno iddo cystal â'r plant brodorol [fel un o brif anghenion myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid]." (*Athro 2*)

"Oherwydd fel y dywedais ar y pryd, nid mater o ddod yma'n unig yw hyn. Mae'n golygu dod yma ac yna byw bywydau cynhyrchiol iawn. Bywydau ystyrlon." (*Pennaeth 1*)

... nid mater o ddod yma'n unig yw hyn. Mae'n golygu dod yma ac yna byw bywydau cynhyrchiol iawn. Bywydau ystyrlon.



Potensial uchel myfyrwyr sy'n ceisio noddfa

"Rwy'n credu ei bod hi'n teimlo'n rhwystredig iawn i ddechrau, oherwydd mae'n ddeallus iawn, rwy'n credu ei bod hi'n teimlo rhwystredigaeth ei bod hi eisiau gallu gwneud y gwaith a'i bod hi'n gwybod y gallai ei wneud ond nad oedd yn gallu ei roi ar bapur ar y dechrau. Felly iddi hi, dyna oedd un o'r heriau mwyaf oedd cymryd amser i... roedd hi'n gwybod ei bod yn gallu ei wneud ond roedd hi'n cael anhawster wrth weld y gwaith yr oedd hi'n gwybod nad oedd cystal â gwaith y plant eraill." (*Athro 1*)

"Ac rwy'n credu ein bod wedi [anghlywadwy]. Rwyf wedi gweld hyn mewn plant yn y grŵp oedran hwn o'r blaen, plant sy'n gwybod eu bod yn dda yn yr ysgol ac fel arfer, yn eu mamiaith, a phopeth... Mae yna rwystredigaeth aruthrol ac maen nhw wedi cyrraedd yr oedran lle maen nhw eisiau i bawb wybod 'Gallaf ei wneud.' Mae'r rhwystredigaeth yn deillio o'r ffaith nad ydyn nhw'n gallu ei wneud oherwydd yr iaith." (*Pennaeth 1*)

"Hyd yn oed pan es i'r ysgol honno ddod, mae'r plentyn yn gwybod y rhifau i gyd yn ei mamiaith, yn gallu cyfrif i lawr, am yn ôl. Ond mae angen mwy o gymorth arni gyda'i Saesneg. Felly rydych chi'n gwybod oherwydd bod y plentyn yn rhugl yn ei mamiaith, gall ysgrifennu yn ei hiaith ei hun..." (*Cydlynnydd ceiswyr lloches 1*)

"Roedd merch yn fy nosbarth y llynedd nad oedd yn gallu siarad unrhyw Saesneg i ddechrau a doedd hi ddim yn deall y gorchmynion sylfaenol mewn mathemateg, erbyn diwedd y flwyddyn hi oedd yr orau mewn mathemateg yn y dosbarth, ymhell o flaen plant oedd wedi'u geni yn y wlad yma. I mi, mae'n debyg bod ganddi allu deallusol uwch cyn dod i'r wlad..." (*Athro 2*)

Cyfngiadau a chryfderau'r prosiect

Roedd gan y prosiect nifer o gyfngiadau. I ddechrau, roedd y cyfnod wyth wythnos ar gyfer y prosiect yn rhwystr mawr ar gyfer cynnal mwy o gyfweiliadau a recriwtio mwy o gyfranogwyr. Byddai maint sampl mwy yn gyffredinol ac, yn arbennig, cynnwys mwy o staff ysgolion, wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn dysgu rhago am y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau a chael gwell dealltwriaeth o'r math o raglenni fu'n fwyaf defnyddiol i'r ysgol ar gyfer myfyrwyr sy'n ceisio noddfa. Hefyd, oherwydd bod y prosiect hwn wedi'i gynnal yn ystod diwedd blwyddyn galendr ysgolion, roedd staff yr ysgolion yn brysur iawn, ac felly roedd yn anoddach eu recriwtio. Gallai cael llai o gyfweleion nag a ddymunir greu rhagfarn posibl yn y prosiect hwn. Yn ail, oherwydd maint bach y sampl, mae'n bosibl mai dim ond un neu ddau o unigolion oedd yn cynrychioli maes allweddol, a allai arwain at ganfyddiadau llai dibynadwy. Hefyd, gallai rhagfarn y cyfwelydd a'r tîm ymchwil wyro'r broses casglu data ac felly'r canfyddiadau.

Un o gryfderau'r prosiect hwn yw safbwyntiau gwrthrychol, proffesiynol, anaddysgol tîm y prosiect. Roedd hyn yn golygu llai o ragfarn wrth gynnal cyfweiliadau, wrth ddatblygu protocol y gwaith ymchwil ac wrth ddod i gasgliadau ar themâu'r canfyddiadau. O edrych yn ôl, roedd cefndir amrywiol y tîm yn caniatáu ar gyfer prosiect a oedd yn fwy holistaidd a chynrychioliadol.

Trafodaeth ac argymhellion

Roedd darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol yn barod i drafod y pwnc hwn ac ystyriwyd ei fod yn bwysig. Mae'r data ansoddol o'r cyfweiliadau yn adleisio themâu o waith ymchwil blaenorol ac mae hefyd wedi cyflwyno gwybodaeth newydd.

Gellir llunio cyfres o argymhellion ar sail y wybodaeth a ddatgelwyd gan y cyfweleion. Mae'r argymhellion hyn yn amrywio o'r rhai sy'n berthnasol i ysgolion unigol, i'r rhai sy'n berthnasol i sefydliadau cenedlaethol. Oherwydd bod natur y gwaith hwn yn gynhenid gydwethredol (gan gynnwys cyfeirio, atgyfeirio, gweithio i wella profiadau i boblogaeth gyffredin), ac oherwydd bod sefydliadau addysgol a gwasanaethau cymorth ar hyd a lled de Cymru'n wynebu llawer o'r un problemau, mae'n ymddangos y gellir rhoi mwy o bwyslais ar rannu gwybodaeth a chydweithio.



1. Anghenion hyfforddi

- Mae'r broses o geisio lloches yn gymhleth, a gallai darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth addysgol gael anhawster i'w deall a'i dilyn. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant ar y pynciau hyn (gan gynnwys materion cymhleth y rhaglen adsefydlu pobl Syria o gymharu â cheiswyr noddfa eraill, hawliau, dyraniadau ariannol ac yn y blaen). Mae llawer o gyfleoedd hefyd i gael hyfforddiant ar gynhwysiant, sensitifrwydd diwylliannol, osgoi symbolaeth ac integreiddio.

2. Adnoddau ychwanegol

- Gallai adnoddau ychwanegol helpu'r ysgolion hynny sy'n derbyn ceiswyr noddfa i gyflawni anghenion megis darparu mynediad at ddeunyddiau cymorth ieithyddol/cyngor a llwybrau datblygu gwasanaethau/atgyfeirio at wasanaethau seicoleg neu gwnsela y tu mewn a'r tu allan i ysgolion.

3. Cymorth ar y cyswllt cychwynnol

- Mae angen cymorth gan yr awdurdod lleol yn ystod cyswllt cychwynnol rhwng teulu a'r ysgol ar gyfer pob ceisiwr noddfa – i gynnwys adolygiad o gryfderau, gwendidau, diddordebau a heriau'r plentyn, er mwyn gallu creu dull ymgysylltu holistaidd gyda'r plentyn yn y pen draw er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau o ran dysgu a llesiant.

4. Dulliau sy'n seiliedig ar drawma

- Mae angen dulliau sy'n seiliedig ar drawma ac felly mae angen hyfforddiant ar effeithiau trawma ar ddarparwyr addysg a staff y gwasanaethau cymorth sy'n cefnogi plant sy'n ceisio noddfa.

5. Cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref

- Gallai cyswllt gwell rhwng yr ysgol a'r cartref greu'r cysylltiad angenrheidiol rhwng bywyd cartref a bywyd ysgol plentyn. Gallai hyn gynnwys cymorth sydd ar gael i'r teulu (e.e. dosbarthiadau ymgysylltu â'r teulu, cyfeirio at wasanaethau/asedau cymunedol), cynnydd plentyn unigol a/neu gymorth a chyfranogiad rhieni yn y dysgu.

6. Ymgysylltu â rhieni a chyfleoedd

- Gallai ysgolion fod yn llwybrau i rieni gael cyfleoedd i integreiddio, gwirfoddoli a meithrin sgiliau.

7. Rhannu arferion da yn y sector addysg

- Gofynnodd sawl cyfwelai am gyfleoedd hyfforddi rhwng ysgolion a mwy o rannu strategaethau a gellid trafod y posibilïadau ar gyfer hyn.

8. Rhannu arferion da rhwng sectorau

- Yn nhermau "cysylltu popeth â'i gilydd" o ran pa wasanaethau sy'n cael eu darparu gan ba sectorau/sefydliadau ar draws de Cymru, gallai cyfeirlyfr o adnoddau gynyddu hyder, gwella cydweithrediad a gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o weithgareddau eraill sy'n gweithio at yr un nod yn y pen draw.

9. Y defnydd o wasanaethau sy'n cael eu darparu i ysgolion a'u heffeithiolrwydd

- Mae angen sicrhau gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu i ysgolion a monitro'r nifer sy'n eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd er mwyn meithrin effeithlonrwydd a sicrhau gwelliant parhaus.

10. Cartref sefydlog

- Gallai ansefydlogrwydd o ran tai yn dilyn gwasgariad cychwynnol gan y Swyddfa Gartref ac yna wrth "symud ymlaen", pan roddir statws ffoaduriaid, aildrawmateiddio plant a dylid lleihau hyn i'r eithaf.



Cyfeiriadau

1. Cerna L. Refugee education: Integration models and practices in OECD countries. *OECD Education Working Papers*. 2019. <https://doi.org/10.1787/a3251a00-en>
2. O'Toole Thommessen SA and Todd BK. How do refugee children experience their new situation in England and Denmark? Implications for educational policy and practice. *Children and Youth Services Review*. 2018;85: 228–38. <https://doi.org/10.1016/J.CHILDYOUTH.2017.12.025>
3. Hoot JL. Working with very young refugee children in our schools: Implications for the world's teachers. *Procedia: Social and Behavioral Sciences*. 2011;15: 1751–55. <https://doi.org/10.1016/J.SBSPRO.2011.03.363>
4. Achub y Plant. *Hear it From the Teachers: Getting Refugee Children Back to Learning*. 2018. Adalwyd o <https://www.savethechildren.org/content/dam/usa/reports/ed-cp/hear-it-from-the-teachers-refugee-education-report.pdf>
5. Anttila E, Siljamäki M and Rowe N. Teachers as frontline agents of integration: Finnish physical education students' reflections on intercultural encounters. *Physical Education and Sport Pedagogy*, 2018;23(6): 609–22. <https://doi.org/10.1080/17408989.2018.1485141>
6. Dumcias R, et al. *Preparing teachers for diversity: The role of initial teacher education. Final report to DG Education, Youth, Sport and Culture of the European Commission*. 2017. Adalwyd o https://www.researchgate.net/publication/332143071_Preparing_Teachers_for_Diversity_The_Role_of_Initial_Teacher_Education
7. Peterson A, Meehan C, Ali Z and Durrant I. *What are the educational needs and experiences of asylum-seeking and refugee children, including those who are unaccompanied, with a particular focus on inclusion? A literature review*. 2017. Adalwyd o <https://repository.canterbury.ac.uk/item/88253>
8. Besic E, Gasteiger-Klicpera B, Buchart C, Hafner J and Stefitz E. Refugee students' perspectives on inclusive and exclusive school experiences in Austria. *International Journal of Psychology*, 2020. <http://doi.org/10.1002/ijop.12662>.
9. Manzoni C and Rolfe H. *How schools are integrating new migrant pupils and their families*. Llundain: Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, 2019.
10. Hjern A and Kling S. Health care needs in school-age refugee children. *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 2019;16: 4255.
11. Wood S, Ford K, Hardcastle K, Hopkins J, Hughes K a Bellis MA. *Profiadau niweidiol yn ystod plentynod mewn poblogaethau plant sy'n ffoduriaid ac yn geiswyr lloches*. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020.
12. Wofford MC and Tibi S. A human right to literacy education: implications for serving Syrian refugee children. *International Journal of Speech-Language Pathology*, 2018;20: 182–90.
13. McBride M. *Refugee children's education: a review of the literature*. What works Scotland, 2018. Adalwyd o <http://whatworksscotland.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/WWSEduRefugeesLitReview-1.pdf>, cyrchwyd 10 Medi 2020.
14. Fuller M and Hayes B. What are the experiences of education for unaccompanied asylum-seeking minors in the UK? *Child: Care, Health and Development*, 2020;46: 414–21.
15. Kia-Keating M and Ellis BH. Belonging and connection to school resettlement: young refugees, school belonging and psychosocial adjustment. *Clinical Child Psychology and Psychiatry*, 2007;12: 29–43.
16. UNICEF. Education for refugee and asylum seeking children: access and quality in England, Scotland and Wales. 2018. Adalwyd o <https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Access-to-Education-report-PDF.pdf>, fel ar 10 Medi 2020.
17. Taylor S and Sidhu RK. Supporting refugee students in schools: what constitutes inclusive education? *International Journal of Inclusive Education*, 2012;16: 39–56.
18. Johnson JL, Beard J and Evans D. Caring for refugee youth in the school setting. *MASN School Nurse*, 2017;32: 122–8.
19. Bond L, Giddens A, Cosentino A, Cook M, Hoban P, Haynes A, Scaffidi L, Dimovski M, Cini E and Glover S. Changing cultures: enhancing mental health and wellbeing of refugee young people through education and training. *Promotion and Education*, 2007;14: 143–9.
20. UNHCR. Improving access to education for asylum-seeker, refugee children and adolescents in Central Europe. 2019. Adalwyd o https://www.iom.int/sites/default/files/press_release/file/access-to-education-for-refugee-children.pdf, fel ar 10 Medi 2020.
21. Koehler C and Schneider J. Young refugees in education: the particular challenges of school systems in Europe. *Comparative Migration Studies*, 2019;7: 28.
22. Khanom A, Alanazy W, Ellis L, Evans B, Fagan L, Glendenning A, Jones M, John A, Khan T, Kingston M, Manning C, Moyo S, Porter A, Rhydderch M, Richardson G, Rungua G, Russell D, Russell I, Scott R, Stielke A, Williams V and Snooks H. *The Health Experiences of Asylum Seekers and Refugees in Wales*. 2019.
23. Leavey G, King M, Barnes J, Hollins K, Papadopoulos C and Grayson K. Psychological disorder amongst refugee and migrant schoolchildren in London. *Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology*. 2004;39(3): 191–95. <https://doi.org/10.1007/s00127-004-0724-x>
24. Hek R. (2005). The role of education in the settlement of young refugees in the UK: The experiences of young refugees. *Practice*. 2005;17(3): 157–71. <https://doi.org/10.1080/09503150500285115>
25. Pinson H. and Arnot M. Local conceptualisations of the education of asylum-seeking and refugee students: From hostile to holistic models. *International Journal of Inclusive Education*. 2010;14(3): 247–67. <https://doi.org/10.1080/13603110802504523>

Atodiadau

Canllaw ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig

Cyflwyniad i'r cyfwelai: O'r prosiect hwn, eisiau dysgu mwy am adnoddau a chymorth sydd ar gael a/neu fylchau a allai fodoli. □ Gallai hyn lywio argymhellion polisi yn y dyfodol, creu cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant posibl, neu helpu i ddatblygu swyddogaethau cefnogol eraill er mwyn *gwella profiadau a llesiant myfyrwyr sy'n ceisio noddfa yn y pen draw.*

(Dewisol) Cwestiynau rhagarweiniol:

**** Gellir eu defnyddio i "ddod i adnabod" cyfwelai, er mwyn hwyluso amgylchedd mwy cyfforddus**

- I. Rôl gyffredinol/swydd
 - a. Rwy'n deall eich bod yn ____, beth fydddech chi'n ei ddweud yw eich nodau cyffredinol fel ____?
 - b. Ers pryd ydych chi wedi bod yn addysgu/gweithio yn y maes hwn?
 - c. Yn y rôl hon, pa mor aml ydych chi'n rhyngweithio gyda phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches?
 - d. Pa fath o ryngweithio rydych chi'n ei gael gyda myfyrwyr sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches (e.e. addysgu, cwnsela, gofal bugeiliol)

Asesu anghenion:

**** Rydym eisiau gwybod: Beth mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector addysg yn credu yw anghenion myfyrwyr sy'n ceisio noddfa?**

- I. Beth sy'n dod i'r meddwl os wyf yn holi am anghenion allweddol myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?
 - a. Ysgogwyr: anghenion sy'n cael effaith sylweddol, anghenion cyffredin, anghenion sy'n wahanol i fyfyrwyr nad ydynt yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid
 - a. Ysgogwyr: diwylliant, iechyd, meithrin perthnasoedd/cymdeithasol, cyfathrebu/iaith, presenoldeb, cynhwysiant ac integreiddio, ymdeimlad o berthyn, agweddau cyfoedion (bwlio, gelyniaeth?)
- II. (Dewisol) Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn eich dealltwriaeth o anghenion myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?

Adnoddau cefnogol neu rwystrau:

**** Rydym eisiau gwybod: A yw darparwyr addysg gynradd o'r farn bod gan ysgolion/system addysg yr adnoddau a'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu anghenion plant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?**

- I. Pa fath o bethau fyddai'n ddefnyddiol yn gyffredinol i weithwyr proffesiynol addysg, er mwyn cyflawni anghenion myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?
- II. Beth yn eich barn chi sydd ei angen i wella cymorth i fyfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid? Ydych chi'n credu bod gennych yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi myfyrwyr sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid?
 - a. Ysgogwyr: cyfnod pontio ar y dechrau, iaith, hyfforddiant, cymorth gan rieni, cefnogaeth emosiynol seicolegol, gofal iechyd
 - b. Os nad ydynt ar gael, pam? (Ysgogwyr: Pa rwystrau sydd at hyn fod ar gael? E.e. cyllid, diffyg personél neu benderfyniad gwleidyddol, ac yn y blaen.)

****** A hoffech ychwanegu unrhyw beth arall?**

****** A oes gennych chi unrhyw gysylltiadau a allai fod yn ddefnyddiol i ni eu cyfnewid?**

Gwybodaeth am y prosiect



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Teitl: Archwilio safbwyntiau darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth addysgol ar eu gallu i gyflawni anghenion plant ysgolion cynradd sy'n ceisio noddfa yn Ne Cymru

Beth yw'r prosiect hwn?

Mae llenyddiaeth ddiweddar ar blant sy'n ceisio noddfa (ceiswyr lloches a ffoaduriaid) wedi dangos bod gan yr unigolion hyn anghenion cymdeithasol, addysgol ac iechyd penodol. Felly, mae Cymru yn arwain cyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig ar gyfer addysg broffesiynol wrth iddynt geisio cyflawni anghenion plant sy'n ceisio noddfa. Mae ein bwriad wrth gyfweled gweithwyr addysg proffesiynol yn deillio o ddealltwriaeth bod athrawon yn gweithredu fel hwyluswyr hollbwysig ar gyfer integreiddiad, twf a lles cyffredinol y myfyrwyr hynny.

Wrth edrych ymlaen, gallai'r cyfweiliadau hyn hysbysu argymhellion polisi yn y dyfodol, creu cymorth ar gyfer hyfforddiant posibl a/neu helpu i ddatblygu swyddogaethau cefnogol eraill, oll gyda'r bwriad o wella profiadau a lles plant sy'n ceisio noddfa yn y pen draw.

Pam ydych chi wedi derbyn y daflen hon?

Hoffwn eich gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon oherwydd eich swydd fel gweithiwr addysg proffesiynol yn ogystal â'ch arbenigedd ym mhrofiadau ysgol plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches. Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol. Darllenwch y wybodaeth ganlynol i benderfynu a ydych yn dymuno cymryd rhan.

Beth fyddai cymryd rhan yn y prosiect hwn yn ei olygu?

Bydd cymryd rhan yn y prosiect hwn yn cynnwys un cyfweiliad lled-strwythuredig, wedi'i gynnal mewn person yn eich lleoliad gwaith chi (eich ysgol, swyddfa ac yn y blaen). Ni fydd y cyfweiliad hwn yn cymryd mwy nac 1.5 awr. Yn ystod y cyfweiliad, byddwn yn holi am yr adnoddau sydd ar gael i weithwyr addysg proffesiynol ar gyfer anghenion myfyrwyr sy'n ceisio noddfa. Byddwn hefyd yn gofyn am eich cyfeiriad e-bost er mwyn i ni allu anfon e-bost atoch ar ddiwedd y prosiect o grynodedb o'r themâu perthnasol a ganfuom yn y cyfweiliadau. Rydym yn rhagweld y bydd y crynodeb hwn yn cael ei anfon ar ddechrau mis Awst.

A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Na. Mae'n bwysig eich bod yn deall nad oes rhaid i chi gymryd rhan yn yr astudiaeth. Y prif fudd o gymryd rhan yn y prosiect hwn yw gwneud cyfraniad posibl i wella lles plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.

Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y prosiect?

Byddwn yn cwblhau'r prosiect hwn ddechrau mis Awst. Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, bydd y recordiad o'r cyfweiliad ac unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael eu dileu; ni fydd yn bosibl gwybod pa unigolion a gymerodd ran yn y cyfweiliad, ac ni fydd yr adroddiad yn datgelu unrhyw gyfranogwyr. Ar ôl anfon yr adroddiad at y cyfranogwyr ddechrau Awst, bydd cyfeiriadau e-bost a gwybodaeth gyswllt pob cyfweilai yn cael eu dileu.

Pwy sydd wedi adolygu'r prosiect hwn?

Mae arbenigwyr o'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Datblygu Rhyngwladol yn lechyd Cyhoeddus Cymru wedi adolygu'r prosiect hwn ac wedi darparu adborth. Rydym hefyd wedi ymgynghori â Swyddfa Ymchwil a Datblygu lechyd Cyhoeddus Cymru i gael gwybodaeth ar lywodraethu a moeseg ymchwil.

Pwy sy'n trefnu ac ariannu'r prosiect hwn?

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain y prosiect hwn, mewn cydweithrediad â myfyrwyr meddygol ac ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Yale.

Beth yw fy hawliau wrth gymryd rhan yn y prosiect hwn?

Mae eich hawliau i gael mynediad at eich gwybodaeth neu i'w newid neu ei symud yn gyfyngedig, oherwydd mae angen i ni reoli eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn ddibynadwy a chywir. Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r prosiect hwn, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch yr ydym eisoes wedi'i chasglu. I ddiogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wybodaeth sy'n bersonol-adnabyddadwy.

Gallwch gael rhagor y wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/47461>.

Os byddwch yn dymuno gwneud cwyn am y ffordd rydym wedi trin eich data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio'r mater. Os na fyddwch yn fodlon â'n hymateb neu os ydych yn credu ein bod yn prosesu eich data personol mewn ffordd anghyfreithlon, gallwch wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ein Swyddog Diogelu Data yw John Lawson a gallwch gysylltu ag ef ar john.lawson@wales.nhs.uk. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu gwybodaeth gennych ar gyfer y prosiect hwn yn unol â'n cyfarwyddyd ni.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Os hoffech ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, neu os byddwch yn penderfynu unrhyw adeg nad ydych yn dymuno cymryd rhan mwyach, gallwch siarad gydag aelod o'r tîm astudio yn: Jessica.leung@wales.nhs.uk. Os oes gennych bryder ynglŷn ag unrhyw agwedd ar yr astudiaeth hon, dylech siarad â goruchwyliwr y tîm astudio yn Gill.richardson2@nhs.wales.uk.

Diolch i chi am ddarllen y ddalen wybodaeth hon.

Ffurflen Ganiatâd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Teitl y prosiect: Archwilio safbwyntiau darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth addysgol ar eu gallu i gyflawni anghenion plant ysgolion cynradd sy'n ceisio noddfa yn Ne Cymru

Enw arweinydd y prosiect: Jessica Leung

Rhowch eich **llythrennau enw** yn y blychau

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y ddalen wybodaeth ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ystyried y wybodaeth, holi cwestiynau ac mae'r rhain wedi'u hateb yn foddhaol.

2. Rwy'n deall bod fy nghyfraniad yn wirfoddol ac y gallaf dynnu yn ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm.

3. Rwy'n deall y bydd fy nata yn cael ei storio'n ddiogel mewn dull dienw.

4. Bydd angen rhannu unrhyw ddatgeliadau o faterion diogelwch yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

5. Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod.

Enw'r Cyfranogwr

Dyddiad

Llofnod

E-bost cyswllt

Enw'r Person sy'n casglu'r Cydsyniad

Dyddiad

Llofnod



PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES

aceawarewales.com



facebook.com/acehubwales



[@acehubwales](https://www.instagram.com/acehubwales)



[@acehubwales](https://twitter.com/acehubwales)



PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar
Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC)
Llawr 5
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

 @PublicHealthW